# Cwestiynau Ysgrifenedig a atebwyd rhwng 15 a 22 Chwefror 2007

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**


Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

Cwestiynau i'r Trefnydd


## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog roi gwybod faint o ymgynghorwyr arbennig a gyflogir gan ei adran a chyfanswm cost eu cyflogi yn 2006? (WAQ49225)

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Yn ystod blwyddyn galendr 2006 yr oedd cyfanswm o saith o ymgynghorwyr arbennig yn cael eu cyflogi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru am gost o £354,964. Maent i gyd wedi'u lleoli yn swyddfa'r Prif Weinidog.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ynghylch a fydd ei ymweliad ag Aberystwyth ar 15 Chwefror 2007 yn golygu cost i gyllideb Llywodraeth Cynulliad Cymru, ac, os bydd, beth yw'r amcan gost? (WAQ49311)

**Y Prif Weinidog:** Mae £2,500 wedi cael ei ddyrannu ar gyfer y gost o logi'r canolfan, arlwyo, argraffu a'r system sain.

**Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon**

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog roi gwybod faint o ymgynghorwyr arbennig a gyflogir gan ei adran a chyfanswm cost eu cyflogi yn 2006? (WAQ49215) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb i WAQ49225.

**Peter Black:** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o effaith Gemau Olympaidd Llundain 2012 ar arian y loteri ar gyfer prosiectau yng Nghymru? (WAQ49343)

**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (Alun Pugh):** Yr ydym eisoes yn gwybod y bydd achosion da'r Loteri Genedlaethol yn cyfrannu £410 miliwn tuag at gostau Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd 2012, yn ychwanegol at gyllid oddi wrth y dosbarthwyr chwaraeon a'r gemau loteri pwrpasol ar gyfer y Gemau Olympaidd. Fodd bynnag, o ystyried y cynnydd tebygol yn y costau, mae'n debygol y bydd angen rhagor o arian loteri.

Nid yw'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi cyhoeddi eto sut y bydd y £410 miliwn yn cael ei dynnu i lawr, ac ni chafwyd cyhoeddiad ychwaith am ragor o gyllid loteri. Felly, nid wyf wedi gwneud asesiad manwl eto o'r effaith ar arian loteri yng Nghymru.

**Owen John Thomas:** Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi eu cael ynglyn â sicrhau cefnogaeth ariannol i'r papur newydd dyddiol Cymraeg arfaethedig - y Byd? (WAQ49344)

**Alun Pugh:** Yr wyf wedi cwrdd â chynrychiolwyr *Dyddiol Cyf* ddwywaith, ac yr wyf wedi eu hysbysu, er fy mod yn gefnogol i'r syniad o bapur newydd dyddiol Cymraeg, nad oes cyllid ar gael o'm portffolio i i gefnogi menter o'r fath.

Byddwch yn ymwybodol bod *Dyddiol Cyf* wedi cael cynnig cymorth ar ffurf grant cymorth rhanbarthol dewisol gan Adran Menter, Arloesi a Rhwydweithiau Llywodraeth y Cynulliad. Deallaf fod noddwyr *Y Byd* wedi cael cynnig cymorth RSA ar y rhagdybiaeth bod y prosiect yn fusnes sy'n ddichonadwy yn fasnachol ac na fydd angen cymorth refeniw pellach arno i'w gynnal yn y dyfodol.

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu sut mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydlynu'r gwaith o hyrwyddo safleoedd hanesyddol yng Nghymru? (WAQ49345)

**Alun Pugh:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gyfrifol am 127 o henebion. Mae'r safleoedd hyn yn rhychwantu amser o olion archeolegol cynhanes i'r aneddiadau Rhufeinig yn y De-ddwyrain a chestyll mawreddog a mynachlogydd yr Oesoedd Canol i weithfeydd diwydiannol oes Fictoria. Yr ydym yn adnabod llawer o'r rhain ar amrantiad, megis cestyll a muriau trefi Edward I yn y Gogledd, sy'n safleoedd Treftadaeth Byd ac y mae sylw'r cyhoedd yn cael ei hoelio arnynt yn gyffredinol. Mae yna hefyd lawer o henebion llai adnabyddus, ond yr un mor bwysig, ar draws Cymru sy'n ddolen gyswllt adeileddol bwysig â'n treftadaeth.

Mae ein prif asedau hanesyddol yn cael eu hyrwyddo'n ddygn drwy gyfres o lyfrynnau marchnata rhanbarthol a

llyfrynnau sy’n canolbwyntio ar safleoedd penodol. Yn 2007, bydd Llywodraeth y Cynulliad (is-adran Cadw) yn cyflwyno dau lyfryn marchnata rhanbarthol newydd a map teithio o Gymru gyfan a bydd y nifer gyfun o gopïau fydd yn cael eu hargraffu yn cynyddu i dros 200,000. Ar ben hynny, mae’r rhaglen helaeth o ddigwyddiadau sy’n cael eu cynnal ar safleoedd yr henebion hyn yn cael ei hyrwyddo drwy’r rhyngrwyd a’r cyfryngau. Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn gweithio’n agos gyda Chroeso Cymru ar farchnata drwy’r DU a thramor a chyda chonsortia marchnata twristiaeth ledled Cymru. Mae staff yn cael eu cyflogi ar ddeg ar hugain o’r safleoedd hyn sydd yng ngofal y Cynulliad ac maent yn denu rhyw 1.2 miliwn o ymwelwyr y flwyddyn. Yr ydym yn cydnabod hefyd bwysigrwydd hyrwyddo mynediad at yr amgylchedd hanesyddol er budd cymunedau lleol. Byddaf yn archwilio proffil cymunedol yr henebion sydd yn ein gofal yn 2007 fel y gallwn deilwrio’n gwasanaethau’n well yn ôl anghenion rhanddeiliaid lleol.

**William Graham:** Pa drafodaethau y mae’r Gweinidog wedi’u cael ynglyn â dyfodol Stadiwm y Mileniwm? (WAQ49346)

**Alun Pugh:** Yr wyf yn cael cyfarfodydd rheolaidd gydag Undeb Rygbi Cymru pryd y trafodir Stadiwm y Mileniwm ac yr ydym yn gweithio’n agos gyda’r stadiwm ar amryw o faterion, megis digwyddiadau mawr fel Rownd Derfynol Cwpan Heineken 2006. Mater i’r undeb wrth gwrs yw dyfodol y stadiwm.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei bolisïau ynglyn â hyrwyddo’r defnydd o’r iaith Gymraeg? (WAQ49347)

**Alun Pugh:** Fe’ch cyfeiriaf at yr ateb o roddais ichi i WAQ48935 ar 22 Ionawr 2007.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer y chwe mis nesaf? (WAQ49348)

**Alun Pugh:** Yn fras, fy mlaenoriaethau ar gyfer y chwe mis nesaf yw:

- hyrwyddo gwell iechyd i holl bobl Cymru drwy annog ffyrdd iach a gweithgar o fyw. Yr wyf am ganolbwyntio’n arbennig ar y cymunedau sy’n fwyaf eu hangen, darparu ar gyfer cyfranogiad torfol ar draws pob carfan o gymdeithas yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon a sicrhau llwyddiant rhyngwladol cynaliadwy;

- adeiladu ar lwyddiant nofio am ddim i blant a phobl ifanc a nofio am ddim i bobl hyn 60 oed a throsodd;

- cryfhau’r Gymraeg er mwyn symud tuag at y weledigaeth o Gymru wirioneddol ddwyieithog, cefnogi’r iaith fel rhan annatod o’n hunaniaeth genedlaethol a lleol, a gweld cynnydd ar flaenoriaethau allweddol fel Cymraeg i Oedolion;

- cryfhau sefyllfa’r iaith drwy sicrhau ei bod yn cael ei sefydlu yn elfen brif ffrwd ym mhrosesau llunio polisi holl Adrannau Llywodraeth y Cynulliad a CCNC;

- gweithredu’r argymhellion yn adroddiad yr adolygiad o’r celfyddydau, yn cynnwys sefydlu bwrdd strategaeth y celfyddydau a sicrhau rhagoriaeth ym maes y celfyddydau a mynediad

at y celfyddydau ar draws Cymru;

- parhau â'n hymrwymiad i fynediad a rhagoriaeth drwy hyrwyddo ein cryfderau diwylliannol a sicrhau bod y celfyddydau a chwaraeon yn cyfrannu'n llawn at adfywio cymunedol;
- gwneud celfyddydau gweledol yn fwy hygyrch a'u hyrwyddo gartref a thramor;
- mynd ati i ymdrin mewn modd strategol â chynyrchiadau theatr cyfrwng Saesneg yng Nghymru, datblygu gwaith Theatr Genedlaethol Cymru ymhellach a chynyddu capasiti cynhyrchu cwmnïau yng Nghymru;
- datblygu llyfrgelloedd, amgueddfeydd a gwasanaethau archifau lleol ymhellach fel eu bod yn gweddu i'r unfed ganrif ar hugain a darparu gwasanaethau cymunedol modern a fydd yn cefnogi dysgu gydol oes ac o fewn cyrraedd i bawb;
- sicrhau bod amgylchedd hanesyddol Cymru yn gallu cyflawni ei botensial fel ffynhonnell gyfoethog o fudd diwylliannol, addysgol ac economaidd.

**Mick Bates:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllid ar gyfer orielau celf yng Nghymru? (WAQ49349)

**Alun Pugh:** Yr ydym wedi cryfhau'r rhwydwaith orielau yng Nghymru dros y blynyddoedd diwethaf:

Dyma'r cyllid sydd wedi cael ei ddarparu i orielau:

| | |
|---|---|
| 2004-05 | £1,708,896.00 |
| 2005-06 | £2,675,456.00 |
| 2006-date | £1,906,858.00 |
| Gan roi cyfanswm hyd yma o: | £6,291,210.00 |
| | |

Mae buddsoddiad Loteri Cyfalaf sylweddol wedi cael ei rwymo i: Oriel Mostyn, Oriel Davies, Canolfan Ffotograffiaeth Genedlaethol Cymru Ffotogallery ym Mharc Margam, Castell-nedd Port Talbot, Oriel Gelf Glynn Vivian, Abertawe, Canolfan Gelfyddydau Chapter, Caerdydd, a Chanolfan Grefftau Rhuthun, Rhuthun.

Mae hyn yn adeiladu ar waith sydd wedi cael ei gwblhau eisoes yng Nghanolfan y Celfyddydau, Aberystwyth ac Oriel Davies, y Drenewydd. Mae'n rhan o ymrwymiad Cyngor Celfyddydau Cymru i sicrhau y gall y rhwydwaith orielau ddarparu rhaglen amrywiol o arddangosfeydd a gweithgareddau o ansawdd uchel ar draws Cymru a bod yr holl orielau sy'n cael nawdd gan gyngor y celfyddydau yn cydymffurfio â Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005.

Mae cyngor y celfyddydau yn cefnogi'r sector orielau annibynnol a masnachol drwy Gynllun Casglu'r

Principality. Mae'r cynllun wedi ei fwriadu i'w gwneud hi'n bosibl i bob carfan o'r gymuned allu fforddio prynu celfyddyd gyfoes gain a chymhwysol drwy gynllun benthyciadau di-log. Mae Cynllun Casglu'r Principality wedi cyfrannu £1,155,000 i aelod orielau yn 2006-07.

Mae cyngor y celfyddydau yn buddsoddi mewn orielau hefyd drwy gynnig arian loteri i orielau nad ydynt yn gleientiaid refeniw i'w helpu gyda'u gwaith rhaglennu a gwaith addysgol. Mae cyngor y celfyddydau yn cynorthwyo Engage (y Gymdeithas Genedlaethol dros Addysg Orielau) i gynnal cynadleddau, seminarau, prosiectau ymchwil weithredu a seminarau datblygiad proffesiynol i addysgwyr orielau ac artistiaid ledled Cymru. Mewn partneriaeth â'r Gymdeithas Genedlaethol dros Addysg mewn Celf a Dylunio, mae cyngor y celfyddydau hefyd wedi bod yn treialu cynllun artist-athro yng Nghymru i alluogi athrawon celf i fod yn ymwybodol o'r arferion diweddaraf ym maes celf, a bydd cynlluniau peilot yn cael eu cynnal yn Wrecsam ac Abertawe.

**Mick Bates:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am arddangosfeydd celf rhanbarthol yng Nghymru? (WAQ49350)

**Alun Pugh:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi llwyr ymrwymo i hyrwyddo'r celfyddydau ledled Cymru ac mae arddangosfeydd celf rhanbarthol yn elfen hanfodol o hynny.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn darparu cyngor arbenigol, cymorth a chyllid—mwy na £6 miliwn dros y tair blynedd diwethaf—i orielau celf rhanbarthol. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithio gydag Amgueddfa Cymru—National Museum Wales ar hyn o bryd i roi cynllun peilot—Celf Cymru Gyfan/ArtShare Wales—ar waith i hwyluso arddangos gwaith o'r casgliadau cenedlaethol ar draws y rhanbarthau. Mae pum oriel yn cymryd rhan yn y rhaglen hon ar draws Cymru. Yr orielau yw:

Oriel Mostyn, Llandudno, Oriel Davies, y Drenewydd, Canolfan Grefftau Rhuthun, Oriel Gelf Glynn Vivian, Abertawe, a Chastell Bodelwyddan.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithio gydag Amgueddfa Cymru—National Museum Wales a Chynulleidfaoedd Cymru ar hyn o bryd i gloriannu llwyddiant y peilot gyda golwg ar ehangu'r cynllun ymhellach yn y blynyddoedd i ddod.

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y nifer o bobl yn Nyffryn Clwyd sy'n gymwys i gael cymorth wedi'i dargedu o ran trosglwyddo i ddigidol? (WAQ49351)

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu cymorth wedi'i dargedu o ran trosglwyddo i ddigidol yng Nghymru? (WAQ49352)

**Alun Pugh:** Bydd y cynllun cymorth wedi'i dargedu, sy'n cael ei sefydlu gan y BBC a Llywodraeth y DU, ar agor i unrhyw un a fydd yn 75 oed o leiaf adeg y trosglwyddo i ddigidol, i bobl sydd ag anableddau difrifol (a ddiffinnir fel y rhai sy'n cael lwfans gweini neu lwfans byw i'r anabl), ac i'r rhai sydd wedi cael eu cofrestru'n ddall neu'n rhannol ddall.

Bydd help yn cael ei ddarparu i sicrhau, gosod a defnyddio cyfarpar derbyn digidol. Codir tâl bychan, na phenderfynwyd arno eto, am hyn ac eithrio mewn achosion lle mae'r sawl sy'n cael yr help hefyd yn cael credyd pensiwn, cymhorthdal incwm neu lwfans ceisio gwaith. Yn yr achosion hynny, bydd yr help yn rhad ac am ddim.

Gan nad yw’r cynllun wedi cael ei sefydlu eto, nid yw’n bosibl dweud faint o bobl mewn ardal neilltuol fydd yn gymwys ar gyfer y cynllun. Bydd llythyrau’n mynd allan at drigolion cymwys yn eu gwahodd i ymuno â’r cynllun yn nes at yr amser. Bydd Digital UK, y corff sy’n gyfrifol am reoli’r trosglwyddo i ddigidol, hefyd yn cynnal ymgyrchoedd cyfathrebu am y cynllun.

**Janet Ryder:** Faint o arian y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi’i fuddsoddi i sicrhau’r Cwpan Ryder yn 2010? (WAQ49355) ***Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau***

**Y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau (Andrew Davies):** Gwariwyd £307,850 yn fras yn paratoi’r cais llwyddiannus.

**Helen Mary Jones:** Pa ganran o nawdd Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer chwaraeon a aiff tuag at chwaraeon a chwaraeir gan fwyaf gan fenywod a merched a beth yw'r canran a aiff tuag at chwaraeon a chwaraeir gan fwyaf gan fechgyn a dynion? (WAQ49423) ***Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau***

**Andrew Davies:** Nid yw’n bosibl dadgyfuno’r gyfran o gyllid mewn unrhyw ffordd ystyrlon. Fodd bynnag, yr wyf wedi ei gwneud yn glir yn ‘Dringo’n Uwch’ fy mod yn disgwyl i bob partner allweddol, sy’n ymwneud â gyrru ein hagenda ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol ymlaen, sicrhau bod lefelau buddsoddi yn cael eu targedu tuag at ddarparu mynediad cyfartal at chwaraeon i bawb. Mae Cyngor Chwaraeon Cymru yn dal i weithio i fynd i’r afael ag anghydbwysedd y gwyddom amdano mewn lefelau cyfranogiad ac mae wedi ymrwymo i ddarparu, yn arbennig, fwy o gyfleoedd a gwell cyfleoedd i fenywod a merched mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol ar draws Cymru.

## Cwestiynau i’r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog roi gwybod faint o ymgynghorwyr arbennig a gyflogir gan ei adran a chyfanswm cost eu cyflogi yn 2006? (WAQ49240) ***Trosglwyddwyd i’w ateb gan y Prif Weinidog.***

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Fe’ch cyfeiriaf at yr ateb i WAQ49225.

**Alun Ffred Jones:** Pa asesiad y mae’r Gweinidog wedi’i wneud o lwyddiant y gronfa datblygu gwybodaeth (KEF)? (WAQ49263)

**Y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau (Andrew Davies):** Mae’r tîm technoleg ac arloesi wedi penodi contractwyr (PACEC) yn ddiweddar i gynnal adolygiad o raglen KEF yn ei chyfanrwydd. Dylai adroddiad drafft am y canfyddiadau fod ar gael ym mis Mai 2007, a dylai’r adroddiad terfynol ymddangos ym mis Mehefin 2007.

Ers sefydlu KEF mae nifer o werthusiadau wedi cael eu cynnal o elfennau unigol o’r gronfa. Y mwyaf

arwyddocaol oedd yr astudiaeth archwilio entrepreneuriaeth dros chwe blynedd a gynhaliwyd gan Brifysgol Strathclyde i edrych ar yr effaith a’r newidiadau diwylliannol a achoswyd o ganlyniad i elfen entrepreneuriaeth KEF.

Ymysg y gwerthusiadau KEF eraill mae:

- arolygon blynyddol o ysgoloriaethau entrepreneuriaeth 2003-07;
- meincnodi ysgoloriaethau entrepreneuriaeth;
- archwiliadau entrepreneuriaeth Strathclyde 2001-06;
- rôl hyrwyddwyr entrepreneuriaeth yng Nghymru;
- gweithgarwch clybiau menter yng Nghymru 2005;
- gwerthusiad o feithrin gallu arloesi;
- effaith addysg bellach ar economi Cymru;
- adroddiad terfynol cam 1 cronfa datblygu rhanbarthol Ewrop (mewnol);
- gwerthusiad cam 1 ERDF (allanol ar gyfer Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru);
- gwerthusiad o adroddiadau terfynu (Jenesys);
- adolygiad KEF.

**Ann Jones:** Pa gamau sy’n cael eu cymryd i ehangu’r defnydd o gynhyrchu ynni gwyrdd o ffynonellau trwy rym tonnau a llanw oddi ar arfordir y Gogledd? (WAQ49285)

**Andrew Davies:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo’n llwyr i weld diwydiant ynni adnewyddadwy sy’n ffynnu a fydd yn manteisio’n llawn, lle bo dichon gwneud hynny, ar ffynonellau tonnau a llanw oddi ar yr arfordir yn y Gogledd yn ogystal ag yn ardaloedd arfordirol eraill Cymru. Yr ydym eisoes wedi darparu £1.4 miliwn drwy gronfeydd strwythurol Ewrop ar gyfer astudiaethau dichonoldeb mewn perthynas â dau brosiect ynni adnewyddadwy morol yn nyfroedd Cymru ac yr ydym yn gweithio gyda’r cwmnïau wrth iddynt ddatblygu i’r camau nesaf.

I danlinellu ein hymrwymiad i’n dyhead i gynhyrchu ynni adnewyddadwy morol, yr ydym wrthi ar hyn o bryd yn datblygu prosiect ymchwil a fydd yn arwain at gynhyrchu fframwaith strategol ynni adnewyddadwy morol i Gymru. Nod cyffredinol y strategaeth fydd sicrhau ein bod yn gwneud cymaint â phosibl o ddefnydd o adnoddau ynni adnewyddadwy morol.

Yr ydym hefyd yn cyfrannu at gostau gwaith y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy yn astudio ynni llanw yn y DU. Mae’r gwaith hwn yn edrych ar wahanol dechnolegau i harneisio grym y llanw, yn cynnwys tyrbinau yn llif y dwr, a’r disgwyl yw y bydd iddo oblygiadau pwysig o ran ffynonellau llanw megis moryd afon Hafren ac afon Menai ymysg eraill. Mae adroddiad, y disgwylir iddo sôn am faterion economaidd ac amgylcheddol mewn

perthynas â’r gwahanol dechnolegau, i fod i gael ei gyhoeddi ym mis Mehefin.

**Laura Anne Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cymorth sydd ar gael i fusnesau bach Cymreig mewn cymunedau gwledig? (WAQ49286)

**Andrew Davies:** Mae cymorth i fusnesau sy’n cychwyn a busnesau bach presennol mewn ardaloedd gwledig yn cael ei ddarparu drwy’r rhaglen gyffredinol i ddarparu cymorth i fusnesau. Mae cymorth mentora a chymorth arbenigol ar gael fel sy’n briodol ac mae cymorth penodol yn ymwneud â thendro am gontractau sector cyhoeddus a phreifat ar gael drwy’r prosiect i ddatblygu cyflenwyr lleol. Mae cymorth ariannol ar gael drwy Cyllid Cymru i gwmnïau cymwys, pa le bynnag yng Nghymru y maent wedi’u lleoli.

**Leanne Wood:** Pryd fydd y Gweinidog yn gwneud penderfyniad ynghylch a ddylid symud ymlaen gydag adeiladu ffordd osgoi Gartholwg? (WAQ49314)

**Andrew Davies:** Bydd penderfyniad am gymorth grant trafnidiaeth i ffordd osgoi Gartholwg yn cael ei gyhoeddi’n fuan, fel rhan o setliad y Grant Trafnidiaeth am 2007-08.

**Alun Ffred Jones:** Sawl swydd a gollwyd yng Nghymru oherwydd bod cwmnïau’n symud eu prosesau cynhyrchu neu weithgynhyrchu i wledydd eraill? (WAQ49327)

**Andrew Davies:** Nid yw’r ystadegau swyddogol yn priodoli newidiadau o ran nifer swyddi i achosion. Rhwng mis Medi 1999 a mis Medi 2006, gostyngodd y nifer o swyddi gweithgynhyrchu yng Nghymru 18 y cant, o’i gymharu â gostyngiad o 25 y cant ar draws y DU gyfan. Ers datganoli, mae cyfanswm y gyflogaeth yng Nghymru wedi codi 11 y cant, o’i gymharu â chynnydd o 7 y cant ar draws y DU. Law yn llaw â’r tueddiadau hyn cafwyd cynnydd yn ‘ansawdd’ swyddi ar gyfartaledd. Rhwng 2001 a 2005 (y cyfnod hwyaf y mae data cyson ar gael amdano) bu cynnydd o 12 y cant mewn rheolwyr, gweithwyr proffesiynol a gweithwyr cysylltiedig â’r proffesiynau yng Nghymru, sydd i gyfrif am 80 y cant o’r holl gynnydd mewn gweithwyr. Dros yr un cyfnod, gwelodd y DU gynnydd o 10 y cant o ran gweithwyr yn y galwedigaethau hyn.

**Janet Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gloddio am fethan yng nghymoedd Ogwr a Garw? (WAQ49427)

**Andrew Davies:** Mae’r Adran Masnach a Diwydiant wedi rhoi trwyddedau i ddrilio am nwy yn rhanbarth cymoedd Ogwr a Garw. Fe’m cynghorwyd bod caniatâd cynllunio wedi cael ei roi i ddechrau drilio a bod cais wedi cael ei wneud i’r Awdurdod Glo am ganiatâd i ddrilio tyllau turio.

**Mick Bates:** Beth y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud i hybu microgynhyrchu? (WAQ49454)

**Andrew Davies:** Byddaf yn lansio cynllun gweithredu Llywodraeth y Cynulliad ar ficrogynhyrchu yn fuan.

Bydd hwn yn seiliedig ar yr ymatebion i’r ymgynghori y llynedd ynghylch cynllun drafft ac ar drafodaethau wedi hynny â rhanddeiliaid.

Ein bwriad yw targedu’r adnoddau sydd ar gael at weithgareddau penodol i’w gwneud hi’n haws mynd ati i ficrogynhyrchu yng Nghymru. Mae’r gweithgareddau hyn yn cynnwys darparu gwybodaeth a chyngor clir am y technolegau dan sylw, goresgyn y pethau sy’n cael eu gweld fel rhwystrau rhag gosod systemau microgynhyrchu, cymorth i fusnesau bach a chanolig eu maint yn y sector yng Nghymru, ceisio sefydlu prosiectau enghreifftiol ar adeiladau cyhoeddus a thir sy’n eiddo i Lywodraeth y Cynulliad, a chymorth ar gyfer ymchwil a datblygu perthnasol.

**Cwestiynau i’r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau**

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog roi gwybod faint o ymgynghorwyr arbennig a gyflogir gan ei hadran a chyfanswm cost eu cyflogi yn 2006? (WAQ49235) ***Trosglwyddwyd i’w ateb gan y Prif Weinidog.***

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Fe’ch cyfeiriaf at yr ateb i WAQ49225.

**Leanne Wood:** A yw'r Gweinidog wedi gohebu â Gweinidog yn San Steffan ynghylch cynnig diwygiedig NDM3223 a basiwyd yn y Cynulliad ddydd Mawrth 3ydd Hydref, ac, os felly, a wnaiff y Gweinidog nodi manylion yr ohebiaeth honno a’r ymateb iddi? (WAQ49300)

**Y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Jane Davidson):** Nid wyf wedi gohebu â Gweinidog yn Whitehall am y mater hwn ers y ddadl ar 3 Hydref.

**David Lloyd:** Pa gamau y mae’r Gweinidog wedi’u cyflwyno, neu y mae’n bwriadu eu cyflwyno, i fynd i’r afael â bwlio mewn ysgolion? (WAQ49316)

**Jane Davidson:** Mae bwlio yn gallu cael effaith fawr ar fywydau plant a phobl ifanc ac mae hon yn broblem y mae angen inni barhau i fynd i’r afael â hi. Mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru nifer o gynlluniau i roi sylw i fwlio mewn ysgolion.

Mae’n ofynnol i benaethiaid a chyrff llywodraethu fod â pholisi gwrth-fwlio. Ym mis Medi 2003 cyhoeddasom y canllawiau ‘Parchu Eraill’ ar gyfer AALlau ac ysgolion. Maent yn darparu gwybodaeth am fynd i’r afael â bwlio mewn ysgolion a sefydlu polisïau ysgol gwrth-fwlio.

Yng Nghymru ym mis Tachwedd 2004 gofynnwyd i ysgolion gyflwyno copi o’u polisi gwrth-fwlio i Lywodraeth y Cynulliad. Cafodd y polisïau hyn eu gwerthuso gan Brifysgol Caerdydd a chyhoeddwyd adroddiad ym mis Ebrill 2006.

Hefyd, comisiynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, i adolygu strategaethau i fynd i’r afael â bwlio a nodi enghreifftiau o arferion da mewn ysgolion. Cyhoeddodd ei adroddiad ym mis Ebrill 2006.

Ystyriwyd y naill adroddiad a'r llall yn ystod diwrnodau hyfforddi a gynhaliwyd yn haf 2006. Rhoddodd y rhain adborth i swyddogion AALl, cynrychiolwyr o ysgolion cynradd ac uwchradd ac aelodau o rwydwaith gwrth-fwlio Cymru a rhannwyd arferion da. O ganlyniad i'r drafodaeth dros y diwrnodau hyfforddi hynny yr ydym yn datblygu pecyn i ysgolion i hunanasesu eu polisïau gwrth-fwlio. Byddwn yn gofyn i'r AALlau enwebu ysgolion, gyda golwg ar dreialu yn nhymor yr haf.

Yn dilyn llwyddiant wythnos gwrth-fwlio 2005, cynhaliodd Llywodraeth Cynulliad Cymru wythnos gwrth-fwlio arall ym mis Tachwedd 2006. Mae'r wythnosau hyn yn ffordd o godi ymwybyddiaeth ac maent yn rhoi ffocws i ysgolion i ystyried problemau bwlio a rhannu arferion da. Thema wythnos 2006 oedd 'gwylwyr'. Yn ystod yr wythnos hefyd lansiwyd gwefan i ddarparu gwybodaeth a chymorth ychwanegol i ysgolion, rhieni, disgyblion ac eraill (www.wales.gov.uk/respectingothers).

Mae angen rhoi gwybod i blant a phobl ifanc o hyd am y cyngor a'r cymorth sydd ar gael iddynt os ydynt yn cael eu bwlio neu os ydynt yn gwybod am rywun sy'n cael ei fwlio. Ymgynghorwyd â nifer o bobl ifanc o ysgolion cynradd ac uwchradd, fforymau ieuenctid a grwpiau anabl i ganfod pa wybodaeth y mae ei hangen arnynt.

Canlyniad uniongyrchol ymgynghori â phobl ifanc oedd y cystadlaethau posteri a siarter ystafell ddosbarth a lansiwyd gennyf yn ystod wythnos gwrth-fwlio 2005. Aeth y poster a'r siarter ystafell ddosbarth buddugol, sy'n rhoi gwybodaeth allweddol i blant a phobl ifanc am beth i'w wneud ac â phwy i gysylltu os ydynt yn cael eu bwlio, i bob ysgol i gael eu harddangos ac i sefydliadau eraill, fel meddygfeydd teulu a chanolfannau hamdden.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu cynnal cynhadledd genedlaethol am fwlio yn hydref 2007 i bwysleisio'r angen parhaus i ymdrin â bwlio mewn ysgolion, i rannu arferion effeithiol ac i roi cyngor ynglyn â datblygiadau newydd.

Yn olaf, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi sefydlu rhwydwaith gwrth-fwlio i Gymru. Mae'r aelodau'n cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cynulliad Cymru, Estyn, Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru, awdurdodau addysg lleol, y Ddraig Ffynci, Llywodraethwyr Cymru a mudiadau gwirfoddolwyr. Nod y rhwydwaith yw gostwng lefelau bwlio a chreu amgylcheddau mwy diogel i blant a phobl ifanc i fyw, tyfu, chwarae a dysgu ynddynt.

**Janet Ryder:** A yw'r Gweinidog yn fodlon bod pob plentyn sy'n gymwys i dderbyn cinio ysgol am ddim yn cael un? (WAQ49320)

**Jane Davidson:** Nac ydwyf. Gwn nad yw nifer sylweddol o ddisgyblion yn manteisio ar eu hawl i brydau ysgol am ddim.

Mae prydau ysgol am ddim yn chwarae rhan bwysig yn rhoi strategaeth gwrthdlodi Llywodraeth y Cynulliad ar waith. Nododd ein hymgynghoriad 'Blas am Oes', a oedd yn edrych ar fwyd ysgol, fod angen i awdurdodau lleol ac ysgolion weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod cymaint â phosibl o blant yn manteisio ar eu hawl i brydau ysgol am ddim. Mae angen iddynt edrych ar gael gwared â'r stigma sydd ynghlwm wrth brydau ysgol am ddim, er enghraifft drwy ddefnyddio systemau talu heb arian; ac ar hyrwyddo manteisio ar brydau ysgol yn gyffredinol. Bydd symud y mater hwn ymlaen yn dasg allweddol i gyd-drefnydd bwyd mewn ysgolion Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Yr ydym wedi cael dros 500 o ymatebion i'r ymgynghori. Byddant yn help gyda'r gwaith o ddatblygu'r cynllun gweithredu sy'n debygol o ymddangos yn yr haf.

**Janet Ryder:** A wnaiff y Gweinidog ddatgan (a) a oes gan ei hadran unrhyw gontractau gyda chwmnïau hyfforddiant yn y gwaith sydd â phencadlys y tu allan i Gymru (b) os oes, pwy yw'r cwmnïau hynny (c) faint yw gwerth y contractau a ddyfarnwyd ac (ch) beth yw sgôp y contractau a ddyfarnwyd iddynt? (WAQ49321)

**Jane Davidson:** Mae'r canlynol yn manylu ar ba gwmnïau hyfforddiant seiliedig ar waith sydd â'u pencadlys y tu allan o Gymru (b) enwau'r cwmnïau (c) gwerth eu contractau a (d) cwmpas y contractau a ddyfarnwyd iddynt. Gweler atodiad A, sy'n cael ei gyhoeddi fel atodiad at y ffeil hon.

**Janet Ryder:** Pa archwiliadau a wneir i gyfatebu'r rheini sy'n derbyn budd-dal â'r rheini sy'n hawlio cinio ysgol am ddim? (WAQ49322)

**Jane Davidson:** Mae'r cyfrifoldeb am archwilio pwy sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn disgyn ar yr awdurdodau lleol. Mae'r broses yn amrywio rhwng yr awdurdodau ond mae gofyn i ymgeiswyr gyflwyno ffurflen gais a dogfennau i brofi eu bod yn gymwys.

Yr ydym yn ymgynghori â phob awdurdod lleol yng Nghymru ynghylch system electronig arfaethedig i benderfynu a yw disgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Diben hyn yw darparu system wirio genedlaethol a fydd yn lleihau biwrocratiaeth, yn enwedig i ysgolion; annog manteisio ar yr hawl drwy gael gwared â stigma'r broses ymgeisio; a lleihau'r posibilrwydd o dwyllo a gwneud camgymeriadau. Daw'r ymgynghori i ben ar 19 Chwefror.

**Jocelyn Davies:** Pa drafodaethau diweddar y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ynglyn â darparu addysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn y fwrdeistref? (WAQ49323)

**Jane Davidson:** Nid wyf wedi cael trafodaethau gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili'n ddiweddar am y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn y fwrdeistref. Efallai y byddwch am nodi, fodd bynnag, i'r awdurdod agor ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd (Ysgol Bro Sannan) yn Aberbargoed ym mis Medi 2004 ar ôl imi cyn hynny gymeradwyo'r cynnig statudol cysylltiol. Hefyd, mae ysgol newydd yn lle Ysgol Ifor Bach, sy'n cael ei chyllido'n rhannol drwy grant gwella adeiladau ysgolion Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn cael ei chodi ar hyn o bryd. Deallaf fod yr awdurdod hefyd, mewn ymateb i gynnydd yn y galw o du rhieni, yn ystyried dod â chynigion gerbron am ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn ardal Islwyn. Mae ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg Caerffili, Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, yn elwa o fod wedi'i lleoli mewn adeilad modern, cyfoes, a gwblhawyd yn 2002. Gyda 438 o leoedd dros ben (ym mis Ionawr 2006) mae ganddi le i dwf pellach sylweddol.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog roi gwybod faint o ymgynghorwyr arbennig a gyflogir gan ei adran a chyfanswm cost eu cyflogi yn 2006? (WAQ49230) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb i WAQ49225.

**Jocelyn Davies:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion pa drafodaethau a gafodd gyda'r Asiantaeth Safonau Bwyd ynghylch cyfreithloni gwerthiant 'smokies'? (WAQ49299)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones):** Ym mis Tachwedd 2003, comisiynodd yr Asiantaeth Safonau Bwyd Ysgol Filfeddygaeth Prifysgol Bryste i ymchwilio i ganfod a yw'n bosibl cynhyrchu carcasau defaid gyda'r croen arnynt ('smokies') yn ddiogel ac yn hylan mewn lladd-dai. Rhoddwyd adroddiad terfynol am y gwaith hwn i'r asiantaeth ym mis Rhagfyr 2006 ac mae papur gwyddonol am y prif ganfyddiadau wedi cael ei gyflwyno i gyfnodolyn gwyddonol sy'n cael ei adolygu gan gymheiriaid. Daw'r adroddiad i'r casgliad bod modd i gig defaid gyda'r croen arno gael ei gynhyrchu'n hylan, o dan amodau a reolir, ac mae'n darparu tystiolaeth fel sail i ddatblygu protocol archwilio cig.

Law yn llaw â hyn, mae darn cysylltiol o waith yn cael ei wneud i edrych ar fater meddyginiaethau milfeddygol mewn perthynas â chig defaid gyda'r croen arno. Gallai fod angen meddyginiaethau ar ddefaid i reoli, er enghraifft, barasitiaid a phryfed neilltuol sydd, oni bai eu bod yn cael eu trin, yn gallu bod yn broblem lles. Mae cyfnodau cadw o'r gadwyn fwyd yn sicrhau bod unrhyw weddillion mewn cig o anifeiliaid sydd wedi cael eu trin â meddyginiaethau islaw terfyn 'diogel'. Efallai fod y cyfnodau cadw o'r gadwyn fwyd wedi cael eu cyfrifo o safbwynt cig defaid heb y croen arno gan fod y croen yn cael ei dynnu oddi ar unrhyw gig defaid yn y DU ar hyn o bryd. Mae'r astudiaeth hon yn edrych ar sut y cafodd y cyfnodau cadw o'r gadwyn fwyd eu cyfrifo ac mae'n tynnu tua'i therfyn.

Fe'm cynghorir gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd fod y canfyddiadau o'r ddau faes gwaith hwn yn dal i gael eu gwerthuso gan yr asiantaeth. Mae'n rhy gynnar felly i ddyfalu a fydd yr asiantaeth mewn sefyllfa i gysylltu â'r Comisiwn Ewropeaidd i ofyn am newid y gyfraith er mwyn caniatáu cynhyrchu carcasau defaid a'r croen arnynt ('smokies') mewn lladd-dai sydd wedi cael eu cymeradwyo yn y DU.

**Alun Ffred Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion y rhesymau dros y newidiadau arfaethedig i is-ddeddfau'r draethlin, o ran i) crancod y glannau a ii) cocos, ac a wnaiff nodi ar ba dystiolaeth y bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud? (WAQ49302)

**Alun Ffred Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion yr amserlen ar gyfer gweithredu'r newidiadau arfaethedig i is-ddeddfau'r draethlin ar gyfer i) crancod y glannau a ii) cocos, a'r cyfle am ymgynghoriad cyhoeddus? (WAQ49301)

**Carwyn Jones:** Credaf fod y newidiadau yr oeddech yn cyfeirio atynt wedi'u cynnwys mewn dwy is-ddeddf newydd a gynigiwyd yn ddiweddar gan Bwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru. Cyd-bwyllgor llywodraeth leol yw hwn a sefydlwyd i reoli a chadw pysgodfeydd lleol cyn belled allan i'r môr â chwe milltir, a rhaid i'r is-ddeddfau gael eu cyflwyno i Lywodraeth Cynulliad Cymru i gael eu hystyried ac, fel sy'n briodol, eu cadarnhau.

Is-ddeddf arfaethedig 5 yw rheoli'r nifer o bobl sy'n casglu pysgod mewn pysgodfeydd rhynglanw cyhoeddus. Daeth pryder ynghylch rheoli pysgodfeydd o'r fath i'r amlwg ers y 'marwolaethau cocos' ym Mae Morecambe yn 2004. Nod yr is-ddeddf yw lleihau'r siawns o farwolaethau pellach, achosi llai o darfu cymdeithasol, creu ffordd fwy systematig, sy'n cael ei rheoli'n well, o ymelwa ar y gwelyau cocos, a lleihau effaith pysgota dwys ar nodweddion cadwraeth yr ardal ac ar gyflenwadau bwyd y boblogaeth adar yn lleol. Bydd yn gwneud hyn drwy gyflwyno cynllun cofrestru i ddarpar gasglwyr masnachol a bydd gofyn iddynt ymgymryd â hyfforddiant diogelwch. Yn groes i rai argraffiadau cyhoeddus, ni fydd yn effeithio ar aelodau o'r cyhoedd sy'n dymuno

casglu hyd at 5 kg o gocos neu gregyn gleision y dydd at ddefnydd personol.

Diben is-ddeddf 30 yw lleihau'r nifer gynyddol o bysgotwyr hobi neu bysgotwyr anfasnachol sy'n pysgota o gychod pysgota nad ydynt wedi cael eu cofrestru na'u trwyddedu, lle mae'r ddalfa yn cael ei gwerthu'n anghyfreithlon wedyn. Bydd yr is-ddeddf yn cyfyngu pysgota anfasnachol i derfynau dal dyddiol ond nid yw'r is-ddeddf yn berthnasol i grancod y glannau sy'n cael eu casglu gan enweirwyr i'w defnyddio fel abwyd. Bydd y cyfyngiadau yn lleihau'r effaith ar gyflenwadau pysgod a byddant yn golygu llai o werthu pysgod yn anghyfreithlon.

Hysbysebwyd y naill is-ddeddf a'r llall mewn papurau newydd lleol a daeth 15 gwrthwynebiad i law. Yr oedd y rhan fwyaf o wrthwynebwyr yn poeni y byddai is-ddeddf 30 yn cyfyngu ar hawliau dynol unigol i gasglu crancod ar y lan fel abwyd. Fodd bynnag, fel yr eglurwyd uchod, nid yw'r is-ddeddf yn effeithio ar gasglu crancod yn anfasnachol. Camargraff arall oedd mai dim ond 40 trwydded i bysgota'n fasnachol am gocos fyddai'n cael eu caniatáu dan is-ddeddf 5. Y ffeithiau yw y bydd 40 trwydded newydd yn cael ei rhoi bob blwyddyn yn ychwanegol at dros 700 o drwyddedau sydd eisoes wedi cael eu rhoi i bysgotwyr gan Bwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru ar gyfer 2006-07.

Ar ôl i'r ymgynghoriad cyhoeddus ddod i ben, cyflwynwyd yr is-ddeddfau i mi i gael eu cadarnhau. Ystyriais y gwrthwynebiadau ond, fel yr wyf wedi nodi uchod, yr wyf yn fodlon na fydd y pryder pennaf am leihau hawliau pysgota cyhoeddus yn digwydd ac yr wyf wedi penderfynu bod modd cadarnhau'r is-ddeddfau. Cyflwynwyd yr is-ddeddfau gerbron y Cynulliad Cenedlaethol hefyd, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 30.2, am y pum diwrnod gorfodol ac ni chyflwynodd unrhyw Aelod Cynulliad 'gynnig o anfodlonrwydd'. O dan yr amgylchiadau, bydd y swyddogion yn llofnodi'r is-ddeddfau ar fy rhan o fewn yr wythnos nesaf yn fras.

**Jocelyn Davies:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch amserlen ar gyfer cyfreithloni gwerthu 'smokies'? (WAQ49303)

**Carwyn Jones:** Ym mis Tachwedd 2003, comisiynodd yr Asiantaeth Safonau Bwyd Ysgol Filfeddygaeth Prifysgol Bryste i ymchwilio i ganfod a yw'n bosibl cynhyrchu carcasau defaid gyda'r croen arnynt ('smokies') yn ddiogel ac yn hylan mewn lladd-dai. Rhoddwyd adroddiad terfynol am y gwaith hwn i'r asiantaeth ym mis Rhagfyr 2006 ac mae papur gwyddonol am y prif ganfyddiadau wedi cael ei gyflwyno i gyfnodolyn gwyddonol sy'n cael ei adolygu gan gymheiriaid. Daw'r adroddiad i'r casgliad bod modd i gig defaid gyda'r croen arno gael ei gynhyrchu'n hylan, o dan amodau a reolir, ac mae'n darparu tystiolaeth fel sail i ddatblygu protocol archwilio cig.

Law yn llaw â hyn, mae darn cysylltiol o waith yn cael ei wneud i edrych ar fater meddyginiaethau milfeddygol mewn perthynas â chig defaid gyda'r croen arno.

Fe'm cynghorir gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd fod y canfyddiadau o'r ddau faes gwaith hwn yn dal i gael eu gwerthuso gan yr asiantaeth. Mae'n rhy gynnar felly i ddyfalu a fydd yr asiantaeth mewn sefyllfa i gysylltu â'r Comisiwn Ewropeaidd i ofyn am newid y gyfraith er mwyn caniatáu cynhyrchu carcasau defaid a'r croen arnynt ('smokies') mewn lladd-dai sydd wedi cael eu cymeradwyo yn y DU.

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog esbonio'r gefnogaeth benodol, gan gynnwys cefnogaeth ariannol, a oedd ar gael i bobl ifanc sy'n newydd i'r diwydiant amaethyddol a pha gynlluniau sydd ganddo i gyflwyno mesurau newydd? (WAQ49319)

**Carwyn Jones:** Cynorthwyodd Llywodraeth Cynulliad Cymru Glybiau Ffermwyr Ifanc Cymru drwy roi cyllid o £400,000 iddynt dros dair blynedd 2001-02, 2002-03 a 2003-04. O’r swm hwn, darparwyd £150,000 i helpu’r CFfI i gwrdd â’u costau hanfodol ac i hyrwyddo amcanion cyffredinol y Clybiau Ffermwyr Ifanc yng Nghymru, ynghyd â £250,000 o’r cynllun adfer cefn gwlad i gefnogi prosiectau penodol mewn clybiau sirol ledled Cymru. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn awr yn ystyried pa opsiynau allai fod ar gael, a’r costau cysylltiol, i gynorthwyo pobl ifanc sy’n ymuno â’r diwydiant, o dan gynllun datblygu gwledig 2007 i 2013.

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatgan (i) gwerth ariannol pob contract y cytunwyd arno fel rhan o ffermio sensitif i ddalgylch (ii) pryd y cytunwyd ar bob contract a (iii) hyd pob contract? (WAQ49410)

**Carwyn Jones:** Dim ond y prosiect arddangos ffermio sensitif i ddalgylch sydd wedi dechrau. Hyd yma, mae 35 o gontractau, gwerth £670,000 i gyd, wedi cael eu llofnodi. Ymrwymwyd i’r contractau i gyd er mis Medi 2005 a byddant yn dod i ben erbyn mis Ebrill 2008. Nid yw’r ffigurau hyn yn cynnwys y gwaith sydd ar y gweill i gyflwyno’r cynllun llawn yn 2008, gyda chost amcangyfrifedig o £2.2 miliwn y flwyddyn.

## Cwestiynau i’r Gweinidog Cyllid

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog roi gwybod faint o ymgynghorwyr arbennig a gyflogir gan ei hadran a chyfanswm cost eu cyflogi yn 2006? (WAQ49256) ***Trosglwyddwyd i’w ateb gan y Prif Weinidog.***

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Fe’ch cyfeiriaf at yr ateb i WAQ49225.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effeithlonrwydd ei pholisïau ar gyfer gwella gwasanaethau cyhoeddus? (WAQ49287)

**Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex):** Yn ei adroddiad am 2006 tynnodd y Prif Weinidog sylw at yr amrywiaeth eang o gamau a gyflawnwyd gan Lywodraeth y Cynulliad i wella gwasanaethau cyhoeddus yn gyffredinol.

Cyflwynodd ‘Cyflawni Ar Draws Ffiniau’, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2006, y ffordd y byddwn yn gweithredu yng ngoleuni adolygiad Beecham i brysuro tuag at ein nod o drawsnewid y ffordd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu.

Yr egwyddorion allweddol yw rhoi dinasyddion yn gyntaf, gweithio gyda’n gilydd i gyflawni, datblygu gweithlu cyhoeddus gyda’r gorau yn y byd, sicrhau effeithlonrwydd a gwella perfformiad.

Yr ydym yn ymgynghori ynghylch sefydlu byrddau gwasanaethau lleol ar sail ardaloedd yr awdurdodau lleol i ddod â’r prif wasanaethau ynghyd ac i ddarparu gwasanaethau integredig i ddinasyddion.

## Cwestiynau i’r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog roi gwybod faint o ymgynghorwyr arbennig a gyflogir gan ei adran a

chyfanswm cost eu cyflogi yn 2006? (WAQ49245) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb i WAQ49225.

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog nodi pa gyllid ychwanegol y mae'r Gweinidog wedi'i neilltuo fel rhan o strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol? (WAQ49271)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Brian Gibbons):** Mae proses sydd wedi hen ennill ei phlwyf i ystyried anghenion cyllido gwasanaethau sy'n cael eu cefnogi drwy'r grant cynnal refeniw, yn cynnwys gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r ystyriaeth hon yn cael ei seilio ar yr achos a gyflwynir gan lywodraeth leol. Byddwn yn ystyried anghenion cyllido mewn perthynas â'r strategaeth, a fydd yn cael ei rhoi ar waith dros 10 mlynedd, yn y cyd-destun hwnnw.

Rhaid cofio bod yr awdurdodau lleol wedi cyllidebu i wario tua £1.2 biliwn ar wasanaethau cymdeithasol yn y flwyddyn ariannol hon. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 43 y cant mewn termau real dros y pum mlynedd diwethaf. Rhan o'n strategaeth yw defnyddio'r adnoddau sylweddol sy'n cael eu neilltuo i wasanaethau yn well. Mae hyn yn golygu, ymysg pethau eraill, darparu gwasanaethau'n wahanol a chomisiynu'n fwy effeithlon.

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer y meddygfeydd yng Nghymru sydd wedi gorfod cau oherwydd fandaliaeth? (WAQ49284)

**Brian Gibbons:** Nid oes gwybodaeth am y nifer o feddygfeydd sydd wedi gorfod cau oherwydd fandaliaeth yn cael ei dal yn ganolog. Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw feddygfeydd sydd wedi cau ac yr wyf yn siwr y byddai hyn wedi cael ei ddwyn i'm sylw.

Fodd bynnag, yr wyf yn ymwybodol bod fandaliaeth yn effeithio ar feddygfeydd ac yr wyf yn gresynu at hyn. Yr ydym wedi gallu helpu rhai practisiau mewn ardaloedd bregus i gynyddu eu diogeledd drwy roi grantiau iddynt o dan ein cynllun grantiau gwella gofal sylfaenol.

**Carl Sargeant:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyflwyno polisïau iechyd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn Alun a Glannau Dyfrdwy? (WAQ49288)

**Brian Gibbons:** Mae cynllun y GIG i ail-gyflunio gwasanaethau yn y Gogledd yn cynnig opsiynau i newid y ddarpariaeth gwasanaethau yn yr ardal. Ein blaenoriaeth yw sicrhau bod gwasanaethau iechyd yn cael eu darparu mor lleol â phosibl.

Y blaenoriaethau i Alun a Glannau Dyfrdwy dros y 12 mis nesaf yw datblygu ac ehangu'r ystod o wasanaethau gofal sylfaenol sydd ar gael. Bydd hyn yn cynnwys datblygu canolfannau adnoddau gofal sylfaenol newydd yng Nghei Connah, Bwcle, yr Wyddgrug a'r Hob. Erbyn hyn mae Bwrdd Iechyd Lleol Sir y Fflint wedi penodi datblygwyr sy'n cael eu ffafrio ar gyfer y cynlluniau hyn.

**Eleanor Burnham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fynd i’r afael â’r twf mewn gordewdra ymhlith plant yng Nghymru? (WAQ49289)

**Brian Gibbons:** Mae data o astudiaeth 2002 o ymddygiad iechyd mewn plant o oed ysgol yn awgrymu bod un o bob pedwar plentyn yng Nghymru yn ordrwm neu’n ordew ar hyn o bryd. Gwyddom fod hyn oherwydd diet sy’n uchel mewn braster a siwgr ac yn isel mewn ffrwythau a llysiau, ochr yn ochr â lefelau gweithgarwch corfforol isel. Mae mynd i’r afael â gordewdra yn flaenoriaeth i Lywodraeth y Cynulliad o ran gweithredu. Mae’n thema allweddol mewn dogfennau strategol: ‘Bwyd a Lles’ a ‘Dringo’n Uwch’.

Yn 2004 sefydlwyd grwp gorchwyl bwyd a ffitrwydd i blant a phobl ifanc. O ganlyniad i waith y grwp hwnnw ac yn dilyn ymgynghoriad yr haf diwethaf, lansiwyd cynllun gweithredu pum mlynedd, ‘Bwyd a Ffitrwydd—Hybu Bwyta'n Iach a Gweithgarwch Corfforol i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru’ ar 29 Mehefin 2006.

Mae’r cynllun yn nodi rhai o’r ffyrdd y mae Llywodraeth y Cynulliad yn eu defnyddio i helpu i gefnogi rhieni a phlant a phobl ifanc yn eu hymdrechion i fwyta’n well, aros yn ffit a chyrraedd y lefel iechyd uchaf bosibl. Mae’r cynllun yn adeiladu ar strategaethau a chynlluniau cenedlaethol a rhaglenni lleol sy’n bodoli’n barod ac yn darparu fframwaith i integreiddio gweithredu yn ymwneud â maeth a gweithgarwch corfforol i blant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae’r cynllun yn nodi camau gweithredu mewn ysgolion ac yn y gymuned, yn ogystal â hyfforddiant ac adnoddau i oedolion sy’n gweithio gyda phlant, i’w galluogi i ddysgu am fwyta’n iach a gweithgarwch corfforol.

Mae camau gweithredu wedi’u nodi yn y cynllun dan saith pennawd allweddol:

- ehangu rhwydwaith Cymru o gynlluniau ysgolion iach;
- gwella’r bwydydd a’r diodydd sy’n cael eu bwyta a’u hyfed yn ystod y diwrnod ysgol;
- darparu addysg gorfforol o ansawdd uchel, ymarfer sy’n berthnasol i iechyd a sgiliau coginio ymarferol;
- darparu amgylchedd a fydd yn annog plant a phobl ifanc i fanteisio ar gyfleoedd i wneud gweithgarwch corfforol a bwyta bwydydd iachach;
- datblygu sgiliau i alluogi plant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol ac i baratoi bwydydd iachach;
- datblygu a chyflwyno hyfforddiant bwyd a ffitrwydd i’r rhai sy’n gweithio gyda phlant a phobl ifanc;
- sicrhau bod camau gweithredu yn cael eu seilio ar dystiolaeth, neu eu bod yn arloesi ac y byddant yn cael eu gwerthuso ac y bydd y canfyddiadau’n cael eu rhannu.

Mae copi o’r cynllun ar gael ar y wefan o dan y cyfeiriad isod:

http://new.wales.gov.uk/topics/health/improvement/food/action/?lang=cy

http://new.wales.gov.uk/topics/health/improvement/food/action/?lang=en

Mae gwaith wedi dechrau eisoes i roi’r camau gweithredu hyn ar waith, yn cynnwys cyflwyno’r bws coginio i Gymru, sy’n ymweld ag ysgolion gan ddarparu gwersi coginio ymarferol i ddisgyblion.

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog fanylu ar nifer y cartrefi gofal a gaewyd ym mhob blwyddyn er 1997? (WAQ49291)

**Brian Gibbons:** Nid oes ffigurau am gartrefi gofal a gaewyd yn cael eu cofnodi. Dim ond data am y nifer o gartrefi gofal a gofrestrir o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000 gydag Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru sy'n cael ei gadw.

Nid yw gwybodaeth o'r math hwn yn ddibynadwy oherwydd newidiadau yn y diffiniad cyfreithiol o gartrefi gofal o dan y Ddeddf, datblygiadau gwasanaeth fel datgofrestriadau a ddigwyddodd yn sgil datblygu tai â chymorth, a newidiadau yn y ffordd y cofnodir cartrefi bach.

Gyda'r cafeatau sylweddol hyn mewn cof, mae'r tabl isod yn dangos y nifer o gartrefi gofal cofrestredig bob blwyddyn rhwng 2000 a 2006. Nid oes data dibynadwy ar gael cyn 2000 nac am 2002.

| **Blwyddyn** | **Nifer y cartrefi gofal wedi'u cofrestru gyda ASGC** |
|---|---|
| 2000 | 1,351* |
| 2001 | 1,355* |
| 2002 | nid oes data dibynadwy ar gael am y flwyddyn hon oherwydd problemau gydag ansawdd y data |
| 2003 | 1,606 |
| 2004 | 1,402 |
| 2005 | 1,265 |
| 2006 | 1,218 |

* nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys cartrefi gofal bach—rhai sydd â llai na phedwar preswylydd.

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion am ddyled gronedig y GIG hyd yma? (WAQ49292)

**Brian Gibbons:** Cyflwynais bapur yn amlinellu sefyllfa gronnus y GIG yng Nghymru i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer ei gyfarfod ar 13 Rhagfyr 2006. Mae dolen i'r papur ynghlwm isod.

http://www.wales.gov.uk/cms/2/HealthAndSocialServicesCommittee/37D6A89F00087B550000121400000000/d5cbc2421d614d60c5091a874d224698.htm

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog fanylu ynghylch y canran o'r boblogaeth a oedd wedi cofrestru gyda

deintydd y GIG ar gyfer pob blwyddyn er 1997? (WAQ49293)

**Brian Gibbons:** Daeth cofrestru gyda deintydd GIG i ben ar 31 Mawrth 2006, yn sgil cyflwyno rhestrau tybiannol o gleifion o dan y contract deintyddol newydd ar 1 Ebrill 2006. Mae’r ffigurau am y blynyddoedd rhwng 1997 a 2006 i’w gweld yn y tabl isod fel yr oeddent ar 31 Mawrth bob blwyddyn.

| Blwyddyn | % o’r boblogaeth |
|---|---|
| 1997 | 54.0 |
| 1998 | 53.3 |
| 1999 | 50.8 |
| 2000 | 50.6 |
| 2001 | 50.5 |
| 2002 | 50.4 |
| 2003 | 50.3 |
| 2004 | 50.4 |
| 2005 | 48.7 |
| 2006 | 47.7 |

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion yr amser aros ar gyfartaledd o ran oedi wrth drosglwyddo gofal ar gyfer pob blwyddyn er 1999? (WAQ49294)

**Brian Gibbons:** Nid oes gwybodaeth gymaradwy a chyson am y nifer o ddiwrnodau o oedi cyn mis Gorffennaf 2004 ar gael.

Ciplun yw’r cyfrifiad misol sy’n cofnodi unigolion sy’n wynebu oedi amhriodol ar adeg neilltuol o’r mis. Y nifer cronnus o ddiwrnodau o oedi a wynebwyd gan bob unigolyn yn y ciplun yw’r nifer o ddiwrnodau o oedi yng nghiplun y cyfrifiad bob mis. Nid yw’r dull hwn yn caniatáu inni ddeillio cyfartaledd blynyddol. Yr hyn y gall ei wneud yw rhoi cyfartaledd misol inni.

Mae’r nifer o ddiwrnodau o oedi a gofnodwyd ar gyfartaledd ar adeg y cyfrifiad misol, wedi’i ddadansoddi yn ôl iechyd meddwl ac achosion ar wahân i iechyd meddwl yng Nghymru rhwng mis Gorffennaf 2004 a mis Rhagfyr 2006 wedi’i nodi yn y tabl sy’n cael ei gyhoeddi fel gwybodaeth ychwanegol at y ffeil hon.

**Jonathan Morgan:** Sawl claf o Gymru yr oedd y driniaeth a gawsant yn Weston Super Mare wedi’i gytuno arno gan lawfeddyg yng Nghymru cyn i’r driniaeth gael ei chynnal. (WAQ49304)

**Brian Gibbons**: Yr oedd pob claf a gafodd ail gynnig o driniaeth o dan y cynllun ail gynnig eisoes wedi cael ei roi ar y rhestr aros am y driniaeth honno gan ymgynghorydd yn GIG Cymru. Os oedd yr ymgynghorydd o’r farn bod y claf yn addas i gael ei gyfeirio i ysbyty arall, a bod y claf yn cytuno i ail gynnig o driniaeth, byddai’r ymddiriedolaeth GIG yn cyfeirio’r claf yn uniongyrchol at ddarparwr amgen. Byddai’r claf wedyn yn cael asesiad cyn y câi ei dderbyn gan y darparwr amgen. Gall y claf gael ei ddychwelyd i’r ymddiriedolaeth GIG a’i

cyfeiriodd ar unrhyw adeg os nad yw/oedd y darparwr o’r farn bod y claf yn addas i gael y driniaeth y’i cyfeiriwyd ef neu hi i’w chael.

**Owen John Thomas:** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau faint o arian fydd yn cael ei ddarparu gan y Llywodraeth i ariannu triniaeth brachytherapi ar gyfer cleifion sy’n dioddef o ganser y brostad yng Nghymru? (WAQ49305)

**Owen John Thomas:** Yn dilyn ymateb y Prif Weinidog i OAQ2266 ar ariannu triniaeth brachytherapi, pryd fydd y gwasanaeth hwn ar gael i gleifion yng Nghymru? (WAQ49306)

**Brian Gibbons:** Y byrddau iechyd lleol sy’n gyfrifol am gomisiynu triniaethau am ganser y brostad nad yw wedi ymledu, ar wahân i brachytherapi dos isel, y mae Comisiwn Iechyd Cymru yn gyfrifol amdano. Mae swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn cynnal trafodaethau agos gydag Ymddiriedolaeth GIG Felindre a’r comisiwn ar hyn o bryd ynghylch sefydlu gwasanaeth yng Nghymru fel bod modd i gleifion gael brachytherapi dos isel, yn ogystal â radiotherapi pelydr llydan a llawdriniaeth, y ddau fath arall o driniaeth. Bydd penderfyniad manwl am y gwasanaeth hwnnw’n cael ei wneud yn fuan iawn.

**Jonathan Morgan:** Sawl claf o Gymru a gafodd eu trin mewn ysbytai yn Lloegr y llynedd a beth oedd y gost i gyllideb iechyd Cymru ymhob achos? (WAQ49307)

**Brian Gibbons:** Mae’r tabl isod yn adlewyrchu’r llif rheolaidd o gleifion i GIG Lloegr. Yr oedd y nifer o gleifion a gafodd eu trin fel cleifion mewnol neu achosion dydd yn unig ym mlwyddyn ariannol 2005-06 yn 44,133 ar gost o £64.493 miliwn. Dros yr un cyfnod, gwariodd y BILlau £2.226 biliwn ar drin cleifion o Gymru yn ymddiriedolaethau GIG Cymru. Daw’r ffigurau o gyfrifon blynyddol y byrddau iechyd lleol 2005-06.

**Cleifion a gafodd eu trin, fesul mis a gwlad gofrestru (a)**

| **Mis** | **Cleifion wedi’u cofrestru yng Nghymru a gafodd driniaeth yn Lloegr** |
|---|---|
| Ebrill 2005 | 3,606 |
| Mai 2005 | 3,644 |
| Mehefin 2005 | 3,681 |
| Gorffennaf 2005 | 3,818 |
| Awst 2005 | 3,694 |
| Medi 2005 | 3,720 |
| Hydref 2005 | 3,747 |
| Tachwedd 2005 | 3,608 |
| Rhagfyr 2005 | 3,597 |
| Ionawr 2006 | 3,627 |
| Chwefror 2006 | 3,381 |
| Mawrth 2006 | 4,010 |

| | |
|---|---|
| Cyfanswm: | 44,133 |

Ffynhonnell: Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru

(a) cyfnodau yn yr ysbyty

**Jonathan Morgan:** Faint o gleifion o Gymru a gafodd driniaeth yn Lloegr drwy ymweld â llawfeddygon dan y cynllun ail gynnig? (WAQ49308)

**Brian Gibbons:** Cafodd pob claf a gafodd ei drin gan Ymddiriedolaeth Iechyd GIG Ardal Weston o dan gynllun ail gynnig Llywodraeth Cynulliad Cymru ei drin gan dîm o lawfeddygon 'ar ymweliad' o Sweden.

**Jonathan Morgan:** Pa archwiliadau a wneir o gymwysterau a chofnodion llawfeddygon sy'n ymweld ac sy'n gwneud llawdriniaethau ar gleifion o Gymru sy'n cael eu trin dan y cynllun ail gynnig yn Lloegr? (WAQ49309)

**Jonathan Morgan:** A oedd y llawfeddygon o Sweden a oedd yn rhoi llawdriniaeth i gleifion o Gymru yn Weston yn arbenigo ar y pen-glin? (WAQ49317)

**Brian Gibbons:** Cyfrifoldeb yr ysbyty darparu sy'n derbyn cleifion yw penodi eu llawfeddygon a sicrhau bod yr holl wiriadau angenrheidiol wedi cael eu gwneud.

Ni allaf gadarnhau a oedd pob un o'r llawfeddygon a roddodd lawdriniaeth i gleifion o Gymru yn llawfeddygon pen-glin arbenigol, ond dywed yr adolygiad annibynnol o'r llawdriniaethau pen-glin a gyflawnwyd dan y cynllun ail gyfle yng nghanolfan drin y GIG, Weston, gan Gymdeithas Orthopedig Cymru:

ar ôl cyfweld dau lawfeddyg o Sweden nid oes gennym unrhyw amheuon ynglyn â'u profiad a'u sgiliau neilltuol.

**Jonathan Morgan:** Faint o gleifion o Gymru sydd wedi cael llawdriniaeth gywirol yn Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro ers derbyn llawdriniaeth ar y pen-glin yn Weston-Super-Mare a beth fu'r gost ariannol? (WAQ49310)

**Brian Gibbons:** Canfuwyd bod gan 14 o gleifion gymhlethdodau ac mae proses asesu'n dangos a oes angen llawdriniaeth gywirol arnynt. Hyd yma, mae naw claf wedi cael llawdriniaeth gywirol ar y ben-glin neu mae ganddynt ddyddiad dod-i-mewn ar gyfer llawdriniaeth o'r fath.

Y rheidrwydd ar hyn o bryd yw sicrhau bod pob claf yn cael ei driniaeth. Maes o law, bydd y tîm ail gynnig a'r ymddiriedolaeth GIG yn nodi'r costau.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am benderfyniad Comisiwn Iechyd Cymru i beidio ag ariannu

triniaeth ysgogi yn nwfn yr ymennydd i'r rhai sy'n dioddef clefyd Parkinson yng Nghymru? (WAQ49312)

**Brian Gibbons:** Cyfrifoldeb Comisiwn Iechyd Cymru yw darparu gwasanaethau triniaeth ysgogi yn nwfn yr ymennydd i gleifion sydd â chlefyd Parkinson yng Nghymru. Y comisiwn sydd yn y sefyllfa orau i ymgymryd â'r asesiadau anghenion gofynnol a blaenoriaethu gwasanaethau yn unol â hynny, o fewn y terfynau adnoddau a bennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae angen i'r comisiwn bwyso a mesur ystyriaethau fel tegwch, hygyrchedd, effeithiolrwydd clinigol, cost effeithiolrwydd, polisi cenedlaethol a chyrraedd targedau Llywodraeth Cynulliad Cymru wrth ystyried comisiynu unrhyw wasanaeth.

Mae darparu'r driniaeth hon wedi cael ei ddynodi'n flaenoriaeth isel gan y comisiwn yn 2006/07. Cefnogwyd y penderfyniad hwn gan fwrdd cynghori cenedlaethol Comisiwn Iechyd Cymru ar gomisiynu yn ei gyfarfod ar 7 Mehefin 2006. Bydd y comisiwn yn adolygu ei bolisi ar ysgogi yn nwfn yr ymennydd yn flynyddol, a bydd ei statws blaenoriaeth fel maes posibl i fuddsoddi ynddo yn y dyfodol yn cael ei adolygu ar ôl i ganlyniadau treial y Cyngor Ymchwil Meddygol gael eu cyhoeddi.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am faint o refeniw y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei golli oherwydd y polisi presgripsiynau am ddim? (WAQ49313)

**Brian Gibbons:** Amcangyfrifir mai £29.5 miliwn fydd cost lawn cyllido'r polisi i ddiddymu taliadau presgripsiwn o Ebrill 1af 2007. Mae hwn yn ffigur sydd wedi bod ar gael i'r cyhoedd ers amser maith. Mae'r gost amcangyfrifedig hon yn cynrychioli llai na 5 y cant o gost lawn y gyllideb gyffuriau flynyddol. Credwn mai'r polisi hwn, sy'n unigryw i Gymru, yw'r ffordd symlaf a mwyaf effeithiol o leihau anghydraddoldebau, hyrwyddo iechyd da, cefnogi hunanofal a mynd i'r afael â phroblemau tlodi ac incwm isel. Mae'n tanlinellu ymrwymiad y Cynulliad i ddarparu'r mynediad gorau posibl at ofal iechyd i bobl Cymru.

**Helen Mary Jones:** Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi'u cyflwyno, neu y mae'n bwriadu eu cyflwyno, i alluogi pobl â chlefyd Parkinson yng Nghymru i gael mynediad at ysgogi yn nwfn yr ymennydd? (WAQ49315)

**Brian Gibbons:** Cyfrifoldeb Comisiwn Iechyd Cymru yw darparu gwasanaethau triniaeth ysgogi yn nwfn yr ymennydd i gleifion sydd â chlefyd Parkinson yng Nghymru. Y comisiwn sydd yn y sefyllfa orau i ymgymryd â'r asesiadau anghenion gofynnol a blaenoriaethu gwasanaethau yn unol â hynny, o fewn y terfynau adnoddau a bennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae angen i'r comisiwn bwyso a mesur ystyriaethau fel tegwch, hygyrchedd, effeithiolrwydd clinigol, cost effeithiolrwydd, polisi cenedlaethol a chyrraedd targedau Llywodraeth Cynulliad Cymru wrth ystyried comisiynu unrhyw wasanaeth.

Mae darparu'r driniaeth hon wedi cael ei ddynodi'n flaenoriaeth isel gan y comisiwn yn 2006/07. Cefnogwyd y penderfyniad hwn gan fwrdd cynghori cenedlaethol Comisiwn Iechyd Cymru ar gomisiynu yn ei gyfarfod ar 7 Mehefin 2006. Bydd y comisiwn yn adolygu ei bolisi ar ysgogi yn nwfn yr ymennydd yn flynyddol, a bydd ei statws blaenoriaeth fel maes posibl i fuddsoddi ynddo yn y dyfodol yn cael ei adolygu ar ôl i ganlyniadau treial y Cyngor Ymchwil Meddygol gael eu cyhoeddi.

**Jonathan Morgan:** Ar ba ddyddiad y gwnaeth y claf cyntaf o Gymru i gael llawdriniaeth ar ei ben-glin gael llawdriniaeth yn Weston ac ar ba ddyddiad y gwnaeth y llawfeddygon o Sweden ddechrau rhoi llawdriniaethau? (WAQ49318)

**Brian Gibbons:** Dyfarnwyd y contract i Ymddiriedolaeth Iechyd GIG Ardal Weston ym mis Medi 2004, a chafodd y claf cyntaf o Gymru ei weld ym mis Tachwedd 2004. Yr oedd y llawfeddygon o Sweden eisoes yn eu swyddi erbyn hynny.

**Janet Ryder:** Pa arweiniad y mae'r Gweinidog wedi'i roi i adrannau pediatreg mewn ysbytai yn y Gogledd ynghylch gohirio triniaeth ddewisol i blant o'r Gogledd, yn enwedig mewn perthynas â gwasanaethau a ddarperir yn Ysbyty Alder Hay; ac a wnaiff ef ddatganiad? (WAQ49324)

**Brian Gibbons:** Cyfrifoldeb Comisiwn Iechyd Cymru yw comisiynu gwasanaethau pediatrig trawsffiniol i blant o'r Gogledd. Yn dilyn ymholiadau oddi wrth y gwasanaeth, ysgrifennodd y comisiwn at ymddiriedolaethau GIG yn y Gogledd ar 24 Tachwedd 2006 i egluro'r sefyllfa ynglyn â'r cytundeb lefel gwasanaeth gydag Ymddiriedolaeth GIG Ysbyty Plant Brenhinol Lerpwl.

Mae'r comisiwn wedi gweithio gydag Ysbyty Plant Brenhinol Lerpwl i asesu'r opsiynau i ddod â'r contract yn ôl i sefydlogrwydd ariannol. Cytunwyd, lle mae hynny'n briodol yn glinigol, y byddai'r ymddiriedolaeth yn gweithio i amseroedd aros Cymru o ran cleifion sy'n cael eu cyfeirio am driniaethau dewisol, lle nad oes brys. Nid yw cleifion sy'n cael eu cyfeirio am driniaethau dewisol lle mae brys yn cael eu cynnwys yn y trefniant hwn. Bydd y cam hwn yn golygu amseroedd aros ychydig yn hwy i grwp o gleifion sy'n disgwyl am driniaethau dewisol.

Eleni, megis yn y blynyddoedd cynt, mae Ysbyty Plant Brenhinol Lerpwl wedi rhagori ar ei dargedau o ran gwaith annewisol. Yn ychwanegol, yn y flwyddyn hyd yma, mae'r amseroedd aros am driniaethau dewisol yn Ysbyty Plant Brenhinol Lerpwl wedi gostwng i bedwar mis gyda'r mwyafrif o gleifion, tua 60 y cant, yn cael eu gweld o fewn dau fis.

Fel corff comisiynu cenedlaethol mae gan Gomisiwn Iechyd Cymru ddyletswydd i sicrhau mynediad cydradd at wasanaethau arbenigol i boblogaeth Cymru. O ganlyniad, nid yw'r comisiwn yn gallu cefnogi mynediad cyflymach at driniaeth i boblogaeth y Gogledd a hynny ar draul buddsoddi i gwtogi'r amseroedd aros am wasanaethau arbenigol yng ngweddill Cymru. Mae'r dull gweithredu hwn yn gyson â threfniadau rheoli perfformiad Comisiwn Iechyd Cymru gyda'i holl ddarparwyr yng Nghymru a Lloegr.

**Jonathan Morgan:** Beth oedd y gost, fesul claf, o osod pen-glin Kinemax newydd yn Weston o'i gymharu â'r gost o ddarparu: (a) pen-glin PFC newydd yn Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro; (b) pen-glin Nextgen newydd yn Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro ac (c) pen-gliniau newydd gyda Bupa? (WAQ49325)

**Brian Gibbons:** Nid yw'n bosibl cymharu costau rhwng darparwyr a'i gilydd am y rhesymau canlynol:

- mae'r tîm ail gynnig wedi llunio contractau gyda sawl sefydliad gwahanol a gallai'r pris gorau sydd ar gael fod yn wahanol i'r gost gyfartalog;
- costau ar gyfartaledd yw costau grwp adnoddau gofal iechyd Cymru a gallent fod yn llai na'r gost lawn y gallai darparwyr preifat ei chynnwys yn eu prisiau;
- paratowyd costau cyfeirio Lloegr ar sail wedi'i phwysoli; nid yw costau Cymru wedi'u pwysoli;

- mae costau'r GIG 2005-06 wedi cael eu cynyddu 4.5 y cant i'w haddasu ar gyfer chwyddiant. Gallai'r costau gwirioneddol fod yn wahanol i hyn. Ni fydd y costau gwirioneddol ar gael tan fis Medi 2007;

- gallai'r pecynnau gofal gynnwys gwahanol elfennau o ofal e.e. efallai nad oes darpariaeth cleifion allanol neu adsefydlu yng nghostau Weston.

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am weithgareddau Gwasanaeth Gwaed Cymru? (WAQ49329)

**Brian Gibbons:** Gwasanaeth Gwaed Cymru, sy'n rhan o Ymddiriedolaeth GIG Felindre, yw'r unig ddarparwr gwaed a chefnogaeth cynnyrch gwaed i dde, canolbarth a gorllewin Cymru.

Mae'r gwasanaeth yn casglu rhoddion gwaed gwirfoddol oddi wrth y cyhoedd, a hynny'n ddi-dâl. Caiff y rhoddion hyn eu prosesu a'u profi cyn cael eu dosbarthu i ysbytai lle maent yn cynorthwyo'r gofal i gleifion. Mae'r gwasanaeth yn darparu gwasanaeth sgrinio cyn-geni i sawl ysbyty ac mae hefyd yn cynnig ei wasanaethau labordy cyfeirio i helpu yn y gwaith o ymchwilio i broblemau serolegol cymhleth.

Mae labordy trawsblannu ac imiwnogeneteg Cymru y gwasanaeth gwaed yn darparu cymorth uniongyrchol i ddarparwyr gwasanaethau trawsblannu arennau a bôn-gelloedd. Mae hefyd yn rhedeg cofrestrfa rhoi mêr esgyrn Cymru, panel cenedlaethol gwahanol o roddwyr bôn-gelloedd gwaed posibl. Darperir cymorth meddygol ymgynghorol i bwyllgorau trallwyso gwaed ysbytai a darperir cyngor clinigol i ysbytai sy'n gwsmeriaid i'r gwasanaeth.

**Laura Anne Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynglyn â'r cynnydd y mae'n ei wneud tuag at wella gwasanaeth ambiwlans Cymru? (WAQ49331)

**Brian Gibbons:** Darparodd Llywodraeth Cynulliad Cymru £16 miliwn o gyllid cyfalaf i Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ym mis Tachwedd 2006 i brynu 119 o ambiwlansys brys newydd a 67 o gerbydau gwasanaethau gofal i gleifion. Mae Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru i dderbyn £55 miliwn pellach i brynu setiau radio newydd, sy'n dangos ein hymrwymiad i helpu i wella perfformiad ac amseroedd ymateb.

Mae ymddiriedolaeth ambiwlans Cymru wedi cyhoeddi ei chynllun moderneiddio, 'Time to make a difference', yn unol ag amcanion y polisi ar ddarparu gwasanaethau gofal brys. Bydd hwn yn ymdrin â materion fel galwadau dianghenraid am ambiwlans brys, defnyddio'r adnoddau cyfredol yn well, amseroedd delio â chleifion mewn unedau damweiniau ac achosion brys, ac ystadau a'r fflyd.

Yr wyf wedi cael adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru i Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a'i argymhellion ac yr wyf wedi edrych yn fanwl arnynt. Bydd y rhain, ynghyd ag argymhellion y Pwyllgor Archwilio, yn help inni wrth ystyried ymhle y dylem ganolbwyntio ein sylw. Yr wyf eisoes wedi rhoi ein hymrwymiad i foderneiddio'r gwasanaeth ambiwlans yng Nghymru.

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu o fewn pa amserlen y mae'n disgwyl i'r amseroedd ymateb i alwadau brys Categori A ar gyfer Dwyrain De Cymru gyrraedd targedau Llywodraeth Cynulliad Cymru? (WAQ49333)

**Brian Gibbons:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn monitro perfformiad gwasanaethau ambiwlans brys yn erbyn targedau blaenoriaeth blynyddol y fframwaith gwasanaeth a chyllid. Y targed cyfredol i gategori A yw cynnal perfformiad misol ar gyfartaledd i Gymru gyfan o ran y gwasanaeth ambiwlans brys lle mae o leiaf 60 y cant o'r ymatebion cyntaf i gategori A (lle mae bywyd yn y fantol) yn cyrraedd o fewn wyth munud.

Dylwn egluro mai targed i Gymru gyfan yw hwn ac nad oes gennym dargedau unigol i ranbarthau. Mae'n ofynnol yn ôl targed y fframwaith gwasanaeth a chyllid fod yr ymddiriedolaeth yn sicrhau gwelliannau ym mhob ardal ddaearyddol sydd islaw'r targed ac mae swyddfa ranbarthol fy adran yn monitro perfformiad. Mae cynllun moderneiddio Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, 'Time to make a Difference', hefyd yn nodi sut mae'r ymddiriedolaeth yn disgwyl gwella'r perfformiad er mwyn cyrraedd y targedau.

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr ysbyty newydd sydd yn yr arfaeth ar gyfer Abertawe? (WAQ49334)

**Brian Gibbons:** Mae cymuned iechyd Abertawe a'i phartneriaid wedi datblygu rhaglen amlinellol strategol erbyn hyn sy'n amlinellu'r opsiynau er mwyn darparu gwasanaethau iechyd aciwt, iechyd meddwl a chymunedol yn Abertawe yn y dyfodol. Mae'r rhaglen hon yn cael ei hystyried gan y Cynulliad ar hyn o bryd ochr yn ochr â rhaglenni amlinellol strategol tebyg a ddaeth i law oddi wrth bob rhanbarth arall o Gymru. Yn ystod y gwanwyn, bydd rhaglen gyfalaf newydd i Gymru gyfan yn cael ei llunio, ar sail y rhaglenni hynny, a fydd yn nodi'r blaenoriaethau gwariant cyfalaf arfaethedig i Gymru am y 10 i'r 15 mlynedd nesaf.

Bydd angen i'r gwahanol opsiynau sydd ar gael o ran gwasanaethau aciwt yn Abertawe gael eu gwerthuso'n llawn drwy broses buddsoddiadau cyfalaf Cymru gyfan cyn y gellir nodi opsiwn sy'n cael ei ffafrio. Mae gwaith eisoes ar y gweill i baratoi achos busnes amlinellol strategol, a gaiff ei gwblhau tua diwedd 2007. Bydd hwn yn edrych ymhellach ar yr opsiynau o ran yr un ysbyty integredig sy'n cael ei gynnig. Mae'n annhebygol y caiff yr opsiwn terfynol ei gadarnhau hyd nes y caiff yr achos busnes amlinellol ei ddatblygu a'i gyflwyno yn ystod 2008.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am ei bolisïau ar gyfer gwella'r gwasanaeth ambiwlans? (WAQ49336)

**Brian Gibbons:** Yr wyf wedi cael adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru i Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a'i argymhellion ac yr wyf wedi edrych yn fanwl arnynt. Bydd y rhain, ynghyd ag argymhellion y Pwyllgor Archwilio, yn help inni wrth ystyried ymhle y dylem ganolbwyntio ein sylw ac, fel yr ydych yn gwybod, yr wyf eisoes wedi rhoi ein hymrwymiad i foderneiddio'r gwasanaeth ambiwlans yng Nghymru.

Yn ychwanegol, ym mis Gorffennaf 2006, lansiodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ymgynghoriad 16 wythnos am ei strategaeth o ran gwasanaethau gofal heb ei drefnu yn y dyfodol, sef y strategaeth ar gyfer darparu gwasanaethau gofal brys.

Defnyddir y term 'gwasanaethau gofal heb ei drefnu' fel term generig ar gyfer pob digwyddiad nad yw wedi cael ei gynllunio. Mae hyn yn cwmpasu sefydliadau a gwasanaethau yn cynnwys pob gwasanaeth gofal sylfaenol a'r tu allan i oriau, gwasanaethau ambiwlans, Galw Iechyd Cymru a gwasanaethau gofal eilaidd.

Nod pennaf y strategaeth yw darparu gwasanaeth sy'n sicrhau bod cleifion, ni waeth sut na phryd y maent yn

cysylltu ag unrhyw wasanaeth gofal brys neu ofal nad yw wedi'i drefnu, yn cael eu hasesu ac yn cael eu gweld wedyn gan y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol mwyaf priodol ar yr adeg fwyaf priodol.

**Carl Sargeant:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu llwyddiannau Llywodraeth Cynulliad Cymru o dan ei bortffolio yn Alun a Glannau Dyfrdwy? (WAQ49337)

**Brian Gibbons:** Mae cynllun y GIG i ail-gyflunio gwasanaethau yn y Gogledd yn darparu opsiynau i newid y ddarpariaeth gwasanaethau yn yr ardal. Ein blaenoriaeth yw sicrhau bod gwasanaethau iechyd yn cael eu darparu mor lleol â phosibl.

Y blaenoriaethau i Alun a Glannau Dyfrdwy dros y 12 mis nesaf yw datblygu ac ymestyn yr ystod o wasanaethau gofal sylfaenol sydd ar gael. Bydd hyn yn cynnwys datblygu canolfannau adnoddau gofal sylfaenol newydd yng Nghei Connah, Bwcle, yr Wyddgrug a'r Hob. Mae Bwrdd Iechyd Lleol Sir y Fflint wedi penodi datblygwyr sy'n cael eu ffafrio ar gyfer y cynlluniau hyn erbyn hyn.

**Mick Bates:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hyfforddi deintyddion yng Nghymru? (WAQ49338)

**Brian Gibbons**: Cynyddodd y nifer o leoedd hyfforddiant galwedigaethol a oedd yn cael eu cyllido gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ym mlynyddoedd derbyn Medi 2004, 2005 a 2006 17 y cant. Mae hyn yn gynnydd o naw lle a gyllidir i 64.

O fis Awst 2006 cynyddodd y nifer o leoedd hyfforddiant galwedigaethol deintyddol ôl-radd yng Nghymru o 55 i 65. Mae dau gynllun hyfforddiant proffesiynol deintyddol cyffredinol yng Nghymru.

**Mick Bates:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y defnydd o feddygon o dramor yn y GIG yng Nghymru? (WAQ49339)

**Brian Gibbons:** Mae meddygon—ac yn wir lawer o weithwyr proffesiynol gofal iechyd eraill—o dramor wedi darparu gwasanaeth hynod o werthfawr, sydd o fudd i'r naill ochr a'r llall, am flynyddoedd lawer i'r GIG yng Nghymru.

Mae'n bolisi sydd wedi ennill ei blwyf gan Lywodraeth Cynulliad Cymru na ddylai'r GIG recriwtio meddygon a gweithwyr proffesiynol gofal iechyd eraill o wledydd sy'n datblygu. Rhaid i gyflogwyr sicrhau hefyd fod gan unigolyn hawl gyfreithiol i weithio yn y DU yn unol â chanllawiau'r Swyddfa Gartref, nad oes unrhyw faterion troseddol na hawl-i-ymarfer yn codi o ran yr unigolyn a bod y cymwysterau sy'n berthnasol i'r swydd yn cael eu gwirio. Lle bo angen, rhaid i feddygon gyrraedd safon dderbyniol o Saesneg cyn y cânt ymarfer yn y DU.

Mae'r cwrs sefydlu rhyngwladol i raddedigion meddygol yn cael ei gynnal ddwywaith y flwyddyn i raddedigion meddygol rhyngwladol yng Nghymru. Ei ddiben yw rhoi cyflwyniad i'r GIG yng Nghymru, tynnu sylw at ei strwythur a'i swyddogaeth, yn cynnwys materion yn ymwneud â gofalu am gleifion a chyfleusterau, llywodraethu clinigol, hyfforddiant, cyfathrebu a beth sydd/nad yw yn ymddygiad derbyniol. Mae'r cwrs yn ymdrin â rôl yr Ysgol Addysg Feddygol a Deintyddol i Raddedigion, ethos gweithio yn GIG Cymru ac mae'n rhoi golwg gyffredinol ar sefydliadau sy'n cefnogi meddygon.

Mae’r cwrs yn cynnwys graddedigion meddygol rhyngwladol sydd un ai ar fin dechrau, neu nad ydynt wedi gweithio llawer mwy na chwe mis, yn eu swydd barhaol gyntaf yng Nghymru. Mae llawer o’r meddygon sy’n mynd ar y cwrs yn recriwtiaid newydd i GIG Cymru. I fynd ar y cwrs, rhaid i’r meddygon fod wedi pasio’r naill ran a’r llall o arholiadau’r Bwrdd Asesiadau Proffesiynol ac Ieithyddol. Diben y prawf hwn yw bodloni’r Cyngor Meddygol Cyffredinol fod gan y meddyg o dramor y gallu gofynnol o ran y Saesneg a sgiliau proffesiynol i ymgymryd â gwaith yn ddiogel mewn ysbyty ym Mhrydain. Mae aelodau grwp meddygon Cymru sy’n ffoaduriaid a cheiswyr lloches (WARD) sydd wedi cwblhau arholiad PLAB 2 yn cael cynnig lle ac y cwrs sefydlu cenedlaethol.

Caiff WARD ei gyllido gan Lywodraeth y Cynulliad. Ers ei sefydlu yn 2002, mae’r nifer o feddygon sy’n ffoaduriaid a cheiswyr lloches wedi cynyddu o 16 i 58 (erbyn mis Mehefin 2006). Nod WARD yw helpu’r meddygon sy’n ffoaduriaid a cheiswyr lloches i gyrraedd y safonau sy’n ofynnol i lwyddo ym mhrofion IELTS—system ryngwladol i roi profion Saesneg—a PLAB. Adran Addysg Feddygol a Deintyddol i Raddedigion Prifysgol Caerdydd sy’n llywodraethu’r prosiect.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod y bydd hwyluso integreiddio ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn help i gynnal y nifer o feddygon yn GIG Cymru yn y dyfodol. Y nod cyffredinol yw sicrhau bod y meddygon hynny sydd newydd gyrraedd Cymru ac sy’n geiswyr lloches neu’n ffoaduriaid yn cael y cyfle i ail-ddilysu eu cymwysterau, gan eu galluogi drwy hynny i ddatblygu a chymhwyso eu sgiliau o fewn GIG Cymru.

**Carl Sargeant:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lefelau clefyd yr ysgyfaint yng Nghymru? (WAQ49340)

**Brian Gibbons:** Mae cyflyrau anadlu yn effeithio ar gyfran fawr o’r boblogaeth yng Nghymru. Mae’r rhain gan mwyaf yn gyflyrau gydol oes sy’n effeithio ar bob agwedd o fywyd ac yn rhoi pwysau ar y ddarpariaeth iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Rhwng 1995 a 1998, dangosodd arolygon iechyd gynnydd yn nifer yr achosion i ddynion o 22.6 y cant i 23.5 y cant ac i fenywod o 20.7 y cant i 22.7 y cant. Mae’n ymddangos bod amrywiant rhwng ein hen ardaloedd diwydiannol a’r ardaloedd gwledig.

Dangosai’r data diweddaraf, am 2004-05, fod 14 y cant o oedolion Cymru yn cael eu trin am salwch ar yr ysgyfaint—yr oedd hyn yn cynnwys asthma, a oedd yn 10 y cant. Cofrestrwyd dwy fil a chant o achosion o ganser yr ysgyfaint yn 2005. Yr oedd y marwolaethau oherwydd salwch ar yr ysgyfaint yn 4,450 yn 2005.

Mae tan-ddiagnosio ar glefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint yng Nghymru ac yn aml cymysgir rhyngddo â symptomau asthma. Ceir dros 30,000 o farwolaethau y flwyddyn ar draws y DU o glefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint.

Y ffactor mwyaf arwyddocaol sy’n cyfrannu at farw’n gynamserol a morbidrwydd o glefyd yr ysgyfaint a charsinoma’r ysgyfaint yw ysmygu sigaréts. Mae’r gwaharddiad ar ysmygu sydd i gael ei orfodi yng Nghymru o 2 Ebrill yn enghraifft glir o’r mesurau yr ydym yn eu cymryd i helpu i atal y clefydau hyn rhag dechrau.

Yr ydym hefyd yn llunio cyfarwyddebau datblygu a chomisiynu gwasanaethau ar gyfer cyflyrau anadlu a byddwn yn eu cyhoeddi cyn gynted ag y bydd sylw wedi cael ei roi i’r sylwadau a godwyd yn ystod yr ymgynghori diweddar. Bydd y ddogfen yn annog y newidiadau positif o ran ffordd o fyw sy’n angenrheidiol i helpu i atal yr anhwylderau cronig hyn rhag dechrau, ac yn sicrhau bod gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol priodol yn cael eu darparu pan a lle mae eu hangen.

**Owen John Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gyllideb ar gyfer gwasanaethau deintyddol yng Nghaerdydd? (WAQ49341)

**Brian Gibbons:** Cafodd Bwrdd Iechyd Lleol Caerdydd ddyraniad refeniw net o £15.399 miliwn i ddarparu gwasanaethau deintyddol GIG yn 2006-07. Yn sgil cyflwyno'r contract deintyddol newydd ym mis Ebrill 2006, mater i'r bwrdd iechyd lleol, sy'n gyfrifol am gynllunio a blaenoriaethu gwasanaethau yn ei ardal, yw'r ddarpariaeth a'r lefel o wasanaethau deintyddol GIG. Mae rôl gomisiynu'r BILl yn caniatáu iddo lunio a datblygu'r gwasanaeth i ddiwallu anghenion y boblogaeth leol.

**Owen John Thomas:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'r Gweinidog Cyllid parthed cael arian ychwanegol ar gyfer y gyllideb iechyd o'r hyblygrwydd diwedd blwyddyn? (WAQ49342)

**Brian Gibbons:** Byddaf yn cael trafodaethau gyda'r Gweinidog Cyllid yn ddiweddarach y mis hwn am ba gyllid ychwanegol sydd ar gael i'r gyllideb iechyd o hyblygrwydd diwedd blwyddyn.

**Jenny Randerson:** A yw'r Gweinidog wedi ystyried, yn ei phenderfyniadau ar y gyllideb, yr ymchwil a wnaed yn yr Ysgol Fferylliaeth yn Llundain ar gyfer Gofal Canser Marie Curie, sy'n dangos, am bob £1 ychwanegol a fuddsoddir mewn darparu gofal hosbis yn y cartref, y rhyddheir £2 ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd y GIG? (WAQ49353)

**Jenny Randerson:** A yw'r Gweinidog wedi ystyried cyllido hosbisau ar yr un lefel ag a wneir yn yr Alban? (WAQ49354)

**Brian Gibbons:** Y byrddau iechyd lleol sy'n gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau gofal lliniarol, gan weithio gyda'r partneriaid, yn cynnwys hosbisau, i sicrhau yr ymdrinnir mewn ffordd integredig â diwallu anghenion cleifion.

Gan gydnabod y rôl werthfawr y mae hosbisau gwirfoddol yn ei chwarae yn y ddarpariaeth gofal lliniarol, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi darparu £10 miliwn o gyllid nad yw'n gyllid rheolaidd dros y pedair blynedd diwethaf i ddatblygu a chefnogi'r gwasanaethau hyn. Ar ben hynny, yr ydym hefyd yn ddiweddar wedi cyhoeddi y bydd £2 filiwn yn cael ei ddarparu ar sail reolaidd i wasanaethau hosbis o ansawdd uchel, y mae eu hangen i helpu i ddiwallu anghenion cleifion. Bydd y cyllid hwn yn help i sefydlu trefniadau cyllido cynaliadwy tymor hir ac i ddatblygu'r rôl werthfawr y gall hosbisau ei chwarae yn darparu'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol o safon fyd-eang a ragwelir yn 'Cynllun Oes'.

Mae'r ymgynghorwyr sy'n cynnal yr adolygiad gwasanaeth llinell sylfaen o ofal lliniarol yn ymwybodol o'r ymchwil y cyfeiriwch ati yn eich cwestiwn.

**Alun Cairns:** Pa gyllid ychwanegol fydd y Gweinidog yn ei gynnig er mwyn i gleifion Cymru gael brachytherapi yn Lloegr, neu driniaeth o fath arall, hyd nes bydd Felindre'n gallu cynnig brachytherapi? (WAQ49394)

**Alun Cairns:** Pryd y mae'r Gweinidog yn disgwyl y bydd y cleifion cyntaf yn cael triniaeth brachytherapi yn Felindre? (WAQ49395)

**Brian Gibbons:** Mae safbwynt Llywodraeth Cynulliad Cymru ar hyn o bryd o ran darparu brachytherapi dos isel i drin canser y brostad nad yw wedi ymledu wedi cael ei nodi yn fy natganiad Cabinet dyddiedig 13 Chwefror. Mae i'w weld ar:

http://assembly/cabinet/Content/statements/2007/13.2.07%20brachytherapy.rtf

**Jonathan Morgan:** Pa ganran o staff gwasanaethau cymdeithasol a gyflogir gan awdurdodau lleol oedd yn meddu ar y cymhwyster gofynnol ar gyfer y gwaith a wnânt? (WAQ49404)

**Brian Gibbons:** Mae datganiad ystadegau gwladol SDR 105/2006 (R), a gyhoeddwyd ar 7 Chwefror 2007, yn cynnwys gwybodaeth am staff sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan adrannau gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r datganiad yn crynhoi gwybodaeth am Gymru. Mae'r data'n cyfeirio at y sefyllfa ar 31 Mawrth 2006. Mae'r set ddata lawn, gyda gwybodaeth am awdurdodau lleol unigol, yn cael ei chyhoeddi ar y rhyngrwyd gan Uned Data Llywodraeth Leol Cymru ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cesglir ystadegau am y nifer o staff sydd yn meddu ar gymhwyster gofynnol neu gymhwyster sy'n cael ei argymell yn ôl y fframwaith cymwysterau i'r sector gofal cymdeithasol a gynhyrchwyd gan Gyngor Gofal Cymru, ac am y staff sy'n meddu ar gymwysterau cysylltiol yn alwedigaethol neu gymwysterau sy'n cael eu cydnabod fel rhagflaenwyr i'r fframwaith.

Yr oedd y gyfran staff drwyddi draw a oedd yn meddu ar gymhwyster gofynnol neu gymhwyster sy'n cael ei argymell yn 40 y cant, o'i gymharu â 37 y cant ar 31 Mawrth 2005. Yr oedd y canran yn amrywio ar draws grwpiau galwedigaethol a lleoliad swyddi, ac yr oedd cyn uched â 95 y cant i weithwyr cymdeithasol. Cynyddodd y gyfran o staff cymwysedig mewn cartrefi plant o 37 y cant yn 2005 i 39 y cant yn 2006, tra cynyddodd canran y staff mewn cartrefi henoed i 42 y cant o'i gymharu â 41 y cant yn 2005. Rhoddir rhagor o fanylion yn y tabl isod.

Staff â chymwysterau sydd wedi'u rhestru

| Nifer o staff ar 31 Mawrth 2006 | | | | 31 Mawrth 2005 | |
|---|---|---|---|---|---|
| Â chymhwyster galwedigaethol gofynnol/a argymhellir | Â chymhwyster galwedigaethol cysylltiol/ rhagflaenu | Cyfanswm y staff | % â chymhwyster gofynnol/a argymhellir | % â chymhwyster gofynnol/a argymhellir | |
| Gwasanaethau rheoli a chymorth canolog | 1,840 | 331 | 5,282 | 35% | 35% |
| Rheolwyr tîm a gweithwyr cymdeithasol (1) | 2,647 | 148 | 2,782 | 95% | 96% |
| Hyfforddeion/cynorthwywyr gwaith cymdeithasol (2) | 242 | 75 | 1,025 | 24% | 23% |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ysbytai/clinigau | 212 | 17 | 250 | 85% | 81% |
| Gwasanaethau gofal cartref | 1,952 | 107 | 7,834 | 25% | 21% |
| Gwasanaethau preswyl i bobl hyn | 1,945 | 120 | 4,590 | 42% | 41% |
| Gwasanaethau preswyl i blant | 223 | 60 | 573 | 39% | 37% |
| Gwasanaethau preswyl eraill (3) | 436 | 20 | 945 | 46% | 37% |
| Gwasanaethau dydd | 1,029 | 176 | 3,319 | 31% | 29% |
| Cyfanswm | 10,526 | 1,054 | 26,600 | 40% | 37% |

(1) Ddim yn cynnwys gweithwyr cymdeithasol mewn ysbytai/ clinigau, sefydliadau preswyl neu ofal dydd.

(2) I bobl ag anableddau dysgu, anableddau corfforol neu anableddau ar y synhwyrau neu broblemau iechyd meddwl.

(3) Gallai staff gael eu cyfrif yn y ddwy golofn gyntaf os ydynt yn meddu ar y naill fath a'r llall o gymhwyster.

**Helen Mary Jones:** Sut y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n gweithio gyda chomisiynwyr a darparwyr nyrsio cymunedol, megis Gofal Canser Marie Curie, i sicrhau bod cleifion yn derbyn yr hyn sydd ei angen arnynt? (WAQ49424)

**Helen Mary Jones:** Sut y bydd y Gweinidog yn sicrhau bod gwasanaethau nyrsio cymunedol yn cael eu darparu'n gyfartal ar draws Cymru yn seiliedig ar anghenion clinigol y cleifion a'r gofalwyr yn hytrach nag ar gyfyngiadau lleol o ran cyllideb? (WAQ49425)

**Brian Gibbons:** Yn unol ag amcanion 'Cynllun Oes', mae Llywodraeth y Cynulliad wrthi ar hyn o bryd yn cwblhau fframwaith ar gyfer gwasanaethau cymunedol a fydd yn arweiniad yn y gwaith o ddatblygu gwasanaethau priodol yn y gymuned ac o leihau pwysau ar y sector gwasanaethau aciwt yng Nghymru. Yn gefn i'r fframwaith hwn bydd amryw o gynlluniau ansawdd sydd eisoes wedi cael eu sefydlu ar draws Cymru a byddant yn help i sicrhau yr ymdrinnir mewn ffordd gyson a theg â datblygu a darparu'r holl wasanaethau cymunedol ar draws Cymru.

Bydd gofyn i'r byrddau iechyd lleol, sy'n gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau lleol ar sail anghenion eu poblogaeth breswyl fel y'u nodwyd, gytuno ar gynlluniau gweithredu lleol yn unol â'r fframwaith gwasanaethau cymunedol drwy weithio'n agos gyda phob corff partner, yn cynnwys y sector gwirfoddol yn ogystal â'r cyhoedd, defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr. Bydd hyn yn ategu gwaith y partneriaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles presennol. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn asesu'r cynlluniau gweithredu lleol hefyd i sicrhau yr ymdrinnir mewn ffordd gyson â datblygu gwasanaethau cymunedol, yn cynnwys gweithgarwch nyrsio, ar draws Cymru.

**Huw Lewis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynigion ar gyfer uned ailsefydlu seiciatrig ar safle hen gartref gofal Pentref Rhymni? (WAQ49429)

**Brian Gibbons:** Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wrthi ar hyn o bryd yn ystyried y cais gan Cambian Healthcare Ltd i ddarparu sefydliad iechyd meddwl dan Ddeddf Safonau Gofal 2000 yn St Teilo House, Goshen Street, Rhymni, de Cymru.

Cais yw hwn am ddarparu gofal i gleifion benyw rhwng 18 a 65 oed a allai fod yn agored i gael eu cadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 ac sydd:

- â diagnosis sylfaenol o broblemau iechyd meddwl parhaus; a
- yr aseswyd bod angen ailsefydlu seiciatrig arnynt.

Nid yw'r sefydliad wedi gwneud cais i gael ei gofrestru i ddarparu triniaeth neu ofal i gleifion sydd â diagnosis sylfaenol wedi'i seilio ar un o'r isod, neu mai'r prif reswm am eu derbyn yw:

- ymddygiad troseddol rhywiol;
- eu bod wedi cael niwed i'r ymennydd;
- anabledd dysgu;
- anabledd corfforol;
- eu bod mewn cyfnod aciwt o'u salwch meddwl.

Mae'r arolygiaeth yn rhagweld y gwneir penderfyniad erbyn diwedd mis Chwefror.

Wrth benderfynu ar y cais mae'r arolygiaeth hefyd wedi ceisio cyngor gan y Comisiwn Gofal Iechyd sydd wedi cadarnhau ei fod yn fodlon â pherfformiad y cwmni i ddarparu gwasanaethau o dan Ddeddf Safonau Iechyd 2000 yn Lloegr.

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion unrhyw gynlluniau sydd ganddo i integreiddio Canolfan Iechyd Cymru a'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol yng Nghymru? (WAQ49435)

**Brian Gibbons:** Mae adolygiad allanol annibynnol o sefydliadau ac unedau iechyd cyhoeddus sy'n gweithio ar y lefel genedlaethol wedi nodi nifer o swyddogaethau a chyfrifoldebau sy'n gorgyffwrdd. Mae wedi gwneud argymhellion ynghylch gwelliannau y byddai modd eu gwneud i gael gwared â dyblygu ymdrech, gwella effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a gwerth am arian ac, yn y pen draw, darparu gwell gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru. Y ddau brif argymhelliad yw y dylai trefniadau comisiynu cryfach gael eu sefydlu ar gyfer swyddogaethau a gwasanaethau iechyd cyhoeddus ac y dylai fod sefydliad iechyd meddwl unedig i Gymru. Mae'r swyddogion wrthi ar hyn o bryd yn datblygu mecanweithiau comisiynu cryfach ym maes iechyd cyhoeddus ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru gan weithio gyda'i phartneriaid cenedlaethol a lleol. Mae

Canolfan Iechyd Cymru a’r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol ill dau wedi derbyn ein bod yn symud tuag at un corff o dan un bwrdd ac maent yn gweithio gyda’r swyddogion i ddatblygu cynigion manwl i’r perwyl hwnnw.

## Cwestiynau i’r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog roi gwybod faint o ymgynghorwyr arbennig a gyflogir gan ei hadran a chyfanswm cost eu cyflogi yn 2006? (WAQ49249) ***Trosglwyddwyd i’w ateb gan y Prif Weinidog.***

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Fe’ch cyfeiriaf at yr ateb i WAQ49225.

## Cwestiynau i’r Trefnydd

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog roi gwybod faint o ymgynghorwyr arbennig a gyflogir gan ei hadran a chyfanswm cost eu cyflogi yn 2006? (WAQ49253) ***Trosglwyddwyd i’w ateb gan y Prif Weinidog.***

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Fe’ch cyfeiriaf at yr ateb i WAQ49225.